

Comisiwn
y Gyfraith
Diwygio'r gyfraith

# Tystiolaeth mewn erlyniadau troseddau rhywiol

## Crynodeb o'r Adroddiad

`

# Prosiect tystiolaeth mewn erlyniadau troseddau rhywiol

| | |
|---|---|
| **Pwy ydym ni?** | Mae Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr yn gorff annibynnol a sefydlwyd drwy statud i wneud argymhellion i'r Llywodraeth ynglŷn â diwygio'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr. |
| **Am beth mae'r adroddiad hwn yn sôn?** | Yn 2021, gofynnodd y Llywodraeth i Gomisiwn y Gyfraith adolygu'r gyfraith, yr ymarfer, y canllawiau a'r weithdrefn ar gyfer achosion troseddau rhywiol a gwneud argymhellion ar gyfer diwygio i wella'r ddealltwriaeth o gydsyniad a niwed rhywiol, gwella'r ffordd mae achwynwyr yn cael eu trin, a sicrhau bod diffynyddion yn cael treial teg. |
| **Beth rydym ni'n ei wneud?** | Fe wnaethom ddechrau gweithio ar y prosiect ar 17 Rhagfyr 2021 a chyhoeddi papur cefndir ym mis Chwefror 2022. Fe wnaethom gynnal ymchwil a chwrdd ag amrywiaeth o randdeiliaid i ddatblygu ein cynigion dros dro ar gyfer diwygio. Fe wnaethom gyhoeddi papur ymgynghori gyda 119 o gwestiynau, a phapur ymgynghori cryno gyda 31 o gwestiynau ym mis Mai 2023. Fe wnaethom gynnal ymgynghoriad cyhoeddus dros bedwar mis a ddaeth i ben ym mis Medi 2023.<br><br>Cawsom gyfanswm o 133 o ymatebion i'r ymgynghoriad, a chynhaliwyd tua 60 o ddigwyddiadau a chyfarfodydd ymgynghori. Ar ôl dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'r adborth a gawsom mewn cyfarfodydd a digwyddiadau ymgynghori, fe wnaethom gyhoeddi adroddiad terfynol gydag argymhellion i'r Llywodraeth ar gyfer diwygio ar 22 Gorffennaf 2025. |
| **Ble mae'r adroddiad llawn?** | Mae'r Adroddiad llawn, ynghyd â dogfennau eraill, ar gael yn https://lawcom.gov.uk/project/evidence-in-sexual-offence-prosecutions/. |
| **Beth fydd yn digwydd nesaf?** | Bydd y Llywodraeth yn ystyried ein hargymhellion ac yn penderfynu a ddylid newid y gyfraith. |

## Y crynodeb hwn

Mae'r crynodeb hwn yn egluro'r prosiect ac yn tynnu sylw at ein prif argymhellion ar gyfer diwygio'r gyfraith. Nid yw'n crynhoi'r holl ddiwygiadau rydym yn eu hargymell i'r gyfraith.

Mae rhagor o wybodaeth am bob pwnc a'r argymhellion ar gael yn yr adroddiad terfynol.

# Cyflwyniad

## Pam mae angen diwygio?

Mae treisio a throseddau rhywiol difrifol ymysg y troseddau mwyaf arwyddocaol ac fe'u cyflawnir yn bennaf gan ddynion.[1] Bob blwyddyn, amcangyfrifir bod tua “128,000 o oedolion - dros 90% ohonynt yn fenywod” - yn cael eu treisio (gan gynnwys ymdrechion i'w treisio) yn ôl Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr, a dros y degawd diwethaf, mae nifer yr achosion sy’n cael eu riportio wedi cynyddu.[2]

Nid yw'r heddlu'n cael gwybod am nifer fawr o droseddau rhywiol neu, ar ôl cael gwybod amdanynt, nid ydynt yn mynd yn eu blaen.[3] Hyd yn oed ar ôl i achwynwyr riportio troseddau rhywiol, mae rhai ohonynt yn dewis peidio â chefnogi ymchwiliadau, yn aml oherwydd effeithiau ar iechyd meddwl, diffyg cymorth, ceisiadau ymwthiol i gael gafael ar wybodaeth breifat, a/neu ofn y diffynnydd.

Er bod yr Adolygiad Hollgynhwysol o Dreisio gan y Llywodraeth wedi ystyried y gostyngiad mewn cyfraddau euogfarnau ers 2016, nid dyna yw ein ffocws. Rydym yn gwneud argymhellion ar gyfer diwygio sy'n bodloni nodau ein prosiect orau, sef gwella'r ddealltwriaeth o gydsyniad a niwed rhywiol, gwella'r ffordd mae achwynwyr yn cael eu trin, a sicrhau bod diffynyddion yn cael treial teg (fel y disgrifir uchod).

Er bod cynnydd wedi'i wneud, rydym yn dod i'r casgliad bod tystiolaeth yn dangos bod y broses cyfiawnder troseddol ar gyfer treisio a throseddau rhywiol difrifol yn dal yn ddiffygiol ac y gellir gwneud mwy i sicrhau bod troseddau rhywiol yn cael eu rhoi ar brawf yn gyfiawn, heb achosi trawma i’r achwynwyr.

Un mater sy'n arbennig o niweidiol i dreial teg ac effeithiol ar gyfer troseddau rhywiol yw'r risg y bydd mythau am dreisio yn treiddio drwy'r broses droseddol, gan ddylanwadu ar drafodaethau'r rheithgor.

**Beth yw'r mythau am dreisio?**

Mae mythau am dreisio yn gredoau dilys am drais rhywiol sy'n ffeithiol anghywir ac maent yn deillio o stereoteipiau. Er enghraifft, mae myth y bydd achos o dreisio bob amser yn cael ei riportio'n brydlon. Y gwir yw nad yw'r rhan fwyaf o achosion o dreisio byth yn cael eu riportio, ac mae oedi'n gyffredin.

Mae diffyg consensws ynghylch amlder ac effaith mythau ar achosion troseddau rhywiol a thrafodaethau’r rheithwyr. Mewn arolwg a gynhaliwyd o agweddau rheithwyr go iawn ar ôl treial yng Nghymru a Lloegr, ni chanfuwyd unrhyw gefnogaeth i'r honiad bod “rhagfarn rheithwyr” yn “gyffredin” mewn treialon troseddau rhywiol.[4] Fodd bynnag, yn Seland Newydd, mae astudiaeth ddiweddar yn cefnogi'r farn bod rhywfaint o ymresymu anghyfreithlon yn digwydd wrth i reithwyr go iawn wneud penderfyniadau.[5] Hefyd, dengys ymchwil gyda ffug reithwyr yng Nghymru a

[1] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (“ONS”), Nature of sexual assault by rape or penetration, England and Wales (18 Mawrth 2021) Tablau 3 a 4.
[2] Llywodraeth EF, *The end to end rape review report on findings and actions* (Mehefin 2021) (“Adolygiad Hollgynhwysol o Dreisio”) t 3; R George a S Ferguson, *Review into the Criminal Justice System response to adult rape and serious sexual offences across England and Wales; a’r Research Report* (Llywodraeth EF, Mehefin 2021) (“Adroddiad Ymchwil yr Adolygiad Hollgynhwysol o Dreisio”) t 29.
[3] Llywodraeth EF, *Criminal justice system delivery data dashboard* (Mai 2025).
[4] C Thomas, “The 21st century jury: contempt, bias and the impact of jury service” [2020] *Criminal Law Review* 987; C Thomas, “A response to ‘The Jury is Still Out’” [2021] *Criminal Law Review* 772.
[5] Y Tinsley, C Baylis a W Young, “‘I think she’s learnt her lesson’: Juror use of cultural misconceptions in sexual violence trials” (2021) 52 *Victoria University of Wellington Law Review* 464, 470.

`

Lloegr fod mythau yn effeithio ar drafodaethau rheithwyr.[6]

Gan ystyried hyn i gyd, yn ein hadolygiad rydym yn bwrw ymlaen ar y sail bod risg y gallai mythau a chamsyniadau ddylanwadu ar reithwyr ac y dylai diwygiadau geisio lleihau risgiau o'r fath.

## Terminoleg a dull gweithredu

I adlewyrchu'r broses gyfreithiol, gan gynnwys y rhagdybiaeth bod unrhyw un sydd wedi'i gyhuddo o drosedd yn ddieuog nes y profir ei fod yn euog, rydym yn defnyddio'r termau “diffynnydd” ac “achwynydd” wrth ystyried proses y treial.

Pan fydd rhywun yn cael ei gyhuddo o drosedd, mae'n golygu ei fod wedi cael ei gyhuddo'n ffurfiol gan yr heddlu o gyflawni trosedd.

Yn y prosiect hwn, rydym yn edrych ar dreisio a throseddau rhywiol difrifol. Mae hyn yn golygu nad ydym yn ystyried nac yn gwneud argymhellion ar gyfer troseddau nad ydynt yn rhywiol neu droseddau rhywiol llai difrifol, oni nodir yn wahanol.

## Hawl y diffynnydd i dreial teg

Mae gan ddiffynyddion yng Nghymru a Lloegr hawl i dreial teg. Mae hon yn hawl absoliwt a ddiogelir gan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac a gydnabyddir drwy gydol y broses

Mae hawl y diffynnydd i dreial teg yn “hawl gyfansoddiadol sylfaenol a gydnabyddir gan y gyfraith gyffredin ac mae’n cael ei gwarantu gan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac offerynnau hawliau dynol rhyngwladol eraill” (*R v DPP* (*Ex parte Kebilene ac eraill*) [2000] 2 AC 326).

Fe'i diogelir gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998, sy'n ymgorffori erthygl 6 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol mewn cyfraith ddomestig.

## Hawl yr achwynydd i barch at ei fywyd preifat

Mae gan achwynwyr hawl i fywyd preifat o dan erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Mae erlyn troseddau rhywiol hefyd yn ymwneud â hawl yr achwynydd i barch at ei fywyd preifat, er enghraifft, wrth ddefnyddio ei wybodaeth breifat fel tystiolaeth neu pan gaiff ei holi gan fargyfreithiwr yr amddiffyniad yn ystod treial (a elwir yn “groesholi”). Mae Llys Hawliau Dynol Ewrop wedi penderfynu y gellir “cymryd mesurau i ddiogelu'r [achwynydd], ar yr amod bod mesurau o'r fath yn cyd-fynd ag arfer digonol ac effeithiol o hawliau'r amddiffyniad”.[7] Yn yr adroddiad hwn, rydym yn edrych ar sut gellir gwella rheolau tystiolaeth a gweithdrefnau'r llys er mwyn cefnogi achwynwyr yn well, helpu rheithgorau i ganolbwyntio ar y ffeithiau heb i fythau am drais rhywiol ddylanwadu arnynt, a pharhau i amddiffyn hawl y diffynnydd i dreial teg.



[6] L Ellison a V Munro, “Reacting to rape: Exploring mock jurors’ assessments of complainant credibility' (2009) 49 *British Journal of Criminology* 202 a S Dinos, N Burrowes, K Hammond a Cunliffe, “A systematic review of juries' assessment of rape victims: Do rape myths impact on juror decision making?” (2015) 43 *International Journal of Law, Crime and Justice* 36, 44 a 47.

[7] *SN v Sweden* App No 34209/96 yn [47]; *Aigner v Austria* App No 28328/03 at [37]


## Adnoddau ac oedi

Clywsom dro ar ôl tro am y straen ar adnoddau'r system cyfiawnder troseddol ac effaith hyn ar achosion troseddau rhywiol. Cawsom sylwadau am y diffyg ymarferwyr sy'n fodlon ymgymryd ag achosion o'r fath. Cawsom wybod am effaith hyn ar restrau achosion ac ôl-groniadau llysoedd ac, o ganlyniad, diffyg ymarferwyr â gwybodaeth arbenigol a allai hefyd fod yn farnwyr, neu a allai gael eu cyflogi i ddarparu cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol annibynnol i achwynwyr. Clywsom hefyd am effaith wirioneddol oedi ar achwynwyr a diffynyddion fel ei gilydd, y mae eu bywyd yn gorfod aros yn ei unfan am gyfnodau hir wrth aros am y canlyniad terfynol.

Yn olaf, cawsom sylwadau am gyfleusterau annigonol yn ystad y llysoedd a heriau technolegol sy'n effeithio ar brofiadau cyfranogwyr ac effeithiolrwydd mesurau i helpu i roi tystiolaeth. Rydym wedi ystyried y mater hwn yn ofalus drwy gydol ein prosiect ac yn gwneud argymhellion lle rydym yn credu eu bod yn gyfiawn ac yn gymesur.

Rydym wedi blaenoriaethu argymhellion a fydd, yn ein barn ni, yn arwain at y budd mwyaf. Rydym wedi nodi yn ein casgliadau lle rydym yn credu bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n fwy cymesur mewn mannau eraill. Rydym hefyd yn cydnabod nad oes llawer o gadernid yn y system ar hyn o bryd a bod angen ariannu ein hargymhellion yn briodol i sicrhau eu bod yn cael yr effaith fuddiol a fwriadwyd.

## Y daith drwy'r system cyfiawnder troseddol




Mae ein hadolygiad yn cynnwys:

- cofnodion personol a gedwir gan drydydd partïon (gan gynnwys cofnodion cwnsela);
- tystiolaeth o ymddygiad rhywiol;
- tystiolaeth bod yr achwynydd wedi gwneud honiad blaenorol o ymosodiad rhywiol;
- tystiolaeth bod yr achwynydd wedi gwneud hawliad am iawndal ar gyfer anafiadau troseddol;
- tystiolaeth o gymeriad;
- cyngor cyfreithiol annibynnol a chynrychiolaeth ar gyfer achwynwyr;
- hawl i apelio;
- mesurau i helpu i roi tystiolaeth;
- cyfarwyddydau barnwrol, addysg i reithwyr a pha mor dderbyniol yw tystiolaeth arbenigol i wrthbrofi mythau am dreisio;
- y ffordd y cynhelir treialon gan farnwyr a chyfreithwyr;
- llysoedd arbenigol a diwygiadau mwy radical;
- gwrandawiadau cyn treial;
- diwygio cyfannol

# Cofnodion Personol

Mae cofnodion personol yn cynnwys cofnodion meddygol, cwnsela, addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Maent yn cynnwys gwybodaeth bersonol iawn sy'n ymwneud â hawliau preifatrwydd yr unigolyn dan sylw yn y cofnodion. Fel arfer, mae cofnodion o'r fath yn cael eu cadw gan drydydd partïon, a phan fyddant yn cael eu defnyddio yng nghyd-destun treial, cyfeirir atynt weithiau fel deunydd trydydd parti.




Mae cofnodion meddygol neu gwnsela yn enghreifftiau o gofnodion personol y gall trydydd parti eu cadw. Mae trydydd parti yn berson, yn sefydliad neu'n adran o'r llywodraeth ar wahân i'r ymchwilydd a'r erlynydd. Gall cofnodion personol a gedwir gan drydydd partïon hefyd gynnwys cofnodion a ddelir gan ysgolion, awdurdodau mewnfudo, gwasanaethau plant a theuluoedd, a chyflogwyr, er enghraifft.

## Terminoleg

**“Mynediad”:** mae cofnodion yn cael eu darparu i'r heddlu a'r erlyniad gyda chaniatâd yr achwynydd a deiliad y cofnodion (“mynediad drwy gydsyniad”), neu mae'r heddlu a'r erlyniad yn ceisio cael gorchymyn llys i gael y cofnodion er mwyn gallu ystyried a ydynt yn cynnwys gwybodaeth berthnasol (“mynediad drwy orfodaeth”).

**"Datgeliad"**: os yw'r cofnodion yn cynnwys deunydd y bydd yr erlyniad yn dibynnu arno, neu ddeunydd y gellid yn rhesymol ystyried y gallai danseilio achos yr erlyniad neu helpu achos y diffynnydd, rhaid darparu'r cofnodion hynny i'r amddiffyniad.

**“Derbynioldeb”:** penderfyniad gan y llys y gellir defnyddio cofnodion fel tystiolaeth yn y treial. Gall gwahanol fathau o dystiolaeth fod yn destun gwahanol brofion neu drothwyon i alluogi'r llys i wneud ei benderfyniad.

`

## Y broblem

Gall problemau godi mewn achosion troseddau rhywiol ynghylch mynediad, datgeliad a derbynioldeb cofnodion personol achwynwyr. Gall yr amddiffyniad ofyn am y cofnodion hyn a dibynnu arnynt mewn treial oherwydd gallant fod yn berthnasol ac yn angenrheidiol i symud yr achos yn ei flaen. Fodd bynnag, mae rhai pobl yn poeni bod ceisiadau anghymesur am gofnodion personol. Gall ceisiadau o'r fath fod yn ffordd o gyflwyno mythau a gallant fod yn drawmatig i achwynwyr, gan dorri eu hawl i fywyd preifat oherwydd bod gwybodaeth bersonol yn cael ei datgelu i eraill (ac yn benodol, i'r diffynnydd), neu ei defnyddio, o bosibl, yn y treial. Gall hyn atal achwynwyr rhag riportio neu barhau i gefnogi ymchwiliad neu erlyniad.

Mae pryderon hefyd y gallai ceisiadau o'r fath arwain at beryglu neu oedi therapi achwynwyr. Y rheswm dros hyn yw y gallai'r achwynydd a/neu ei therapydd deimlo nad ydynt yn gallu siarad yn rhydd am yr honiad, neu efallai y byddant yn penderfynu gohirio therapi nes bydd yr achos troseddol wedi dod i ben rhag ofn y gofynnir am nodiadau o'r sesiynau therapi.

## Yr achos dros ddiwygio

Ar hyn o bryd, mae mynediad, datgeliad a derbynioldeb cofnodion personol sy'n cael eu cadw gan drydydd partïon yn cael ei lywodraethu gan gyfuniad o gyfreithiau a chanllawiau sy'n gosod trothwyon isel ac nad ydynt yn benodol i droseddau rhywiol. Gallai newid y dull gweithredu hwn wella profiadau achwynwyr a'u gallu i ymgysylltu â therapi a'r broses droseddol. Gallai hefyd greu mwy o gysondeb yn y ffordd yr ymdrinnir â chofnodion personol achwynydd mewn achosion troseddau rhywiol. Mae'r manteision posibl hyn yn drech na'r pryder nad oes angen na chyfiawnhad dros fframwaith sydd wedi'i gyfyngu i gofnodion personol achwynwyr mewn troseddau rhywiol yn unig; a'r pryder y gallai trefn bwrpasol effeithio ar yr hawl i dreial teg.

Rydym yn dod i'r casgliad mai dim ond ar y cam cyflwyno/cael mynediad at gofnodion personol y dylai trefn newydd fod yn berthnasol. Mae tystiolaeth bod penderfyniadau amhriodol ynghylch cofnodion personol achwynwyr yn cael eu gwneud yn bennaf wrth gael mynediad atynt, yn hytrach nag wrth iddynt gael eu datgelu i'r amddiffyniad, neu wrth wneud penderfyniadau ynghylch pa mor dderbyniol ydynt. Felly, rydym yn canolbwyntio ar y fframwaith a argymhellir ar hyn o bryd i sicrhau ei fod yr un mwyaf cymesur ac effeithiol.

### Argymhelliad

Os yw’r heddlu neu’r erlyniad yn dymuno neu’n mynnu cael cofnodion personol trydydd partïon, rydym yn argymell bod yn rhaid i’r cofnodion fodloni'r canlynol:

1) bod yn berthnasol i fater dan sylw mewn treial neu i gymhwysedd tyst i roi tystiolaeth;
2) bod yn angenrheidiol er mwyn cyfiawnder.

Wrth benderfynu beth sy'n angenrheidiol er budd cyfiawnder, dylid ystyried y ffactorau canlynol:

1) i ba raddau y gallai'r cofnod fod yn angenrheidiol i sicrhau treial teg;
2) gwerth tystiolaethol y cofnod i fater mewn treial;
3) natur a hyd a lled y disgwyliad rhesymol o breifatrwydd mewn perthynas â'r cofnod;
4) a yw'r cais i weld neu gyflwyno'r cofnod yn seiliedig ar ragfarn neu gred wahaniaethol neu a allai greu neu ddibynnu ar fythau a chamsyniadau;
5) y niwed posibl i urddas personol a hawl i breifatrwydd unrhyw berson y mae'r cofnod yn ymwneud ag ef;
6) effaith y penderfyniad ar uniondeb proses y treial.

Mae'r trothwy hwn yn ymateb i'r angen i atal mynediad diangen at gofnodion personol ac mae'n mynd i'r afael â'r anfodlonrwydd bod y trothwy presennol yn oddefgar ac yn rhy agored i gael ei ddehongli. Mae'r trothwy'n gliriach na'r darpariaethau presennol ac mae'n sicrhau y bydd yr ystod berthnasol o fuddiannau'n cael ei hystyried wrth benderfynu a ddylid rhoi mynediad at gofnodion, yn enwedig i ba raddau y gallai fod angen y cofnodion i sicrhau treial teg. Mae Pennod 2 yr adroddiad terfynol yn rhoi rhagor o fanylion am sut gellir rhoi'r trothwy ar waith yn ymarferol.

## Goruchwyliaeth farnwrol

Ar hyn o bryd, nid oes goruchwyliaeth farnwrol dros geisiadau am ddeunydd trydydd parti os yw'r achwynydd yn cydsynio iddo gael ei ddarparu i'r heddlu neu'r erlyniad. Gall trawma ddylanwadu ar gydsyniad achwynydd neu ofn na fydd yr achos yn mynd yn ei flaen os bydd yn gwrthod. Rhaid i ddeiliaid cofnodion ymdrin â materion cyfreithiol ac ymarferol cymhleth. Yn unol â hynny, rydym yn ystyried a ddylid cael craffu barnwrol ar fynediad at gofnodion, hyd yn oed pan fydd yr achwynydd wedi cydsynio.

Byddai goruchwyliaeth farnwrol o geisiadau am fynediad y mae'r achwynydd wedi cydsynio iddynt yn gofyn am amser barnwrol a gallai achosi oedi. Nid ydym yn credu bod manteision goruchwyliaeth farnwrol o'r fath yn drech na'r pryderon hynny. Rydym felly'n dod i'r casgliad na ddylai mynediad at gofnodion fod yn destun craffu barnwrol pan fydd achwynydd yn cydsynio (naill ai cyn cyhuddo neu ar ôl cyhuddo). Fodd bynnag, pan fydd mynediad yn cael ei wrthod, rydym yn argymell y dylai'r heddlu, yr erlyniad (cyn cyhuddo neu ar ôl cyhuddo) a'r amddiffyniad (ar ôl cyhuddo yn unig) wneud cais i'r llys am orchymyn i ddatgelu'r cofnodion hynny.

Mae cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol annibynnol sy'n ymwneud â cheisiadau am gofnodion personol yn ddewis effeithiol sy'n defnyddio llai o adnoddau o'i gymharu â mynnu goruchwyliaeth farnwrol ar gyfer mynediad drwy gydsyniad. Bydd y cynrychiolydd cyfreithiol yn gallu cynghori'r achwynydd ar ei opsiynau, cysylltu â deiliad y cofnodion trydydd parti, ac ymgysylltu â'r heddlu/erlyniad i gael gwybodaeth a chyflwyno sylwadau ynghylch cwmpas a dilysrwydd eu cais. Ar ben hynny, gyda fframwaith a chanllawiau statudol clir (cyn ac ar ôl cyhuddo), dylai'r achwynydd a'i gynrychiolydd cyfreithiol, a deiliad y cofnodion trydydd parti deimlo'n fwy hyderus wrth fynegi gwrthwynebiadau i geisiadau.

**Trosolwg o'n hargymhelliad i orfodi datgelu**

1) Mae'r heddlu, yr erlyniad neu'r amddiffyniad yn gwneud cais i'r llys i gael deunyddiau sy'n cael eu dal gan drydydd parti.

2) Mae'r llys yn clywed dadleuon gan yr erlyniad, yr amddiffyniad, yr achwynydd/ei gynrychiolydd cyfreithiol, a'r trydydd parti, os yw'n dymuno cael gwrandawiad. Os caiff y llys ei ddarbwyllo bod y trothwy wedi'i fodloni, bydd yn gorchymyn i'r trydydd parti ddarparu'r cofnodion i'r heddlu/erlyniad a'r achwynydd/ei gynrychiolydd cyfreithiol.

3) Mae'r trydydd parti'n darparu deunyddiau i'r heddlu/erlyniad a'r achwynydd/ei gynghorydd cyfreithiol neu ei gynrychiolydd.

4) Mae'r heddlu/erlyniad yn adolygu'r deunyddiau, gan ddweud wrth yr amddiffyniad pa wybodaeth sy'n cyrraedd y trothwy datgelu. Mae'r trothwy yn ei gwneud yn ofynnol datgelu deunydd os dibynnir arno i brofi achos, yn ogystal â lle gellid yn rhesymol ystyried y gallai danseilio achos yr erlyniad neu helpu achos y diffynnydd (gweler Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996, adrannau 3(1), 7A(2) a 7A(5)). Mae hyn yn ofynnol ar yr amod nad yw'r deunyddiau'n sensitif a dylid eu dal yn ôl ar sail imiwnedd er lles y cyhoedd.

5) Gall yr erlyniad neu'r amddiffyniad gyflwyno cofnodion personol mewn treial fel tystiolaeth a/neu wrth holi, ar yr amod bod y cofnodion personol yn berthnasol, ac yn amodol ar unrhyw reol eithrio neu drothwy derbynioldeb uwch.

`

## Cwmpas y drefn

Mae buddiannau preifatrwydd achwynwyr yn cael eu defnyddio ni waeth ble neu gan bwy y mae'r wybodaeth breifat yn cael ei chofnodi. Gellir dod o hyd i wybodaeth mewn gwahanol fathau o ddeunyddiau trydydd parti ac mae diffiniad eang yn ddefnyddiol i osgoi bylchau a allai alluogi rhai cofnodion i gael eu cyrchu'n amhriodol.

Er ein bod yn cydnabod bod gan gofnodion therapi ffurf a swyddogaeth benodol, nid yw hyn yn cyfiawnhau culhau ein dull o ymdrin â chofnodion therapi yn unig. Mae tystiolaeth empirig yn awgrymu bod ceisiadau'n cael eu gwneud ar gyfer amrywiaeth o ddeunyddiau trydydd parti, nid dim ond cofnodion therapi, ac ar sail awdurdodaethau eraill, byddai diffiniad cul yn agored i gael ei ddehongli'n eang, a gellid dadlau y byddai hynny'n gwneud y gyfraith yn llai dealladwy. Yn ogystal, mae ffocws cul ar ble mae gwybodaeth yn cael ei chofnodi yn anwybyddu'r ffaith y gallai'r un wybodaeth gael ei chofnodi ar draws amrywiaeth o gofnodion, a gallai hyn arwain at benderfyniadau anghyson.

### Argymhelliad

Rydym yn argymell y dylai'r drefn sy'n rheoleiddio mynediad at gofnodion personol a gorfodi eu cyflwyno fod yn berthnasol i gofnodion a gedwir gan drydydd parti proffesiynol, lle mae gan yr achwynydd ddisgwyliad rhesymol o

## Dim gwaharddiad llwyr ar gofnodion therapi

Ar ôl penderfynu y dylai'r drefn fod â chwmpas eang, rydym serch hynny'n ystyried a ddylid gwahardd defnyddio cofnodion therapi. Mae'r berthynas rhwng therapydd a'i glaf yn gyfrinachol ac yn seiliedig ar ymddiriedaeth. Gallai'r risg o gael mynediad at gofnodion cwnsela, eu datgelu neu eu derbyn mewn erlyniadau troseddau rhywiol effeithio ar y berthynas hon.

Fodd bynnag, mae risg hefyd y gallai gwaharddiad llwyr effeithio ar hawliau'r diffynnydd i gael treial teg. Er enghraifft, gellid cyfiawnhau mynediad at gofnodion therapi pe bai'r achwynydd yn tynnu ei honiad yn ôl yn ystod trafodaethau gyda'i therapydd.

Rydym felly'n dod i'r casgliad na ddylid cael gwaharddiad llwyr ar gyrchu, datgelu na derbynioldeb cofnodion therapi cyn treial.

# Tystiolaeth o ymddygiad rhywiol

Gall tystiolaeth o ymddygiad rhywiol yr achwynydd fod yn dystiolaeth berthnasol mewn treial troseddau rhywiol. Gall fod yn angenrheidiol i ddiffynnydd fynd ag achos ymlaen yn briodol neu herio tystiolaeth yr erlyniad. Fodd bynnag, mewn treial lle mae'n rhaid i'r rheithgor benderfynu a ddigwyddodd achos penodol o ymddygiad rhywiol fel yr honnir, mae manylion ymddygiad rhywiol heb gysylltiad yn aml yn amherthnasol.

Wrth dderbyn tystiolaeth o ymddygiad rhywiol, mae perygl iddi gyflwyno mythau a chamsyniadau am hygrededd, cydsyniad a haeddiant moesol yr achwynydd oherwydd ei ymddygiad rhywiol. Felly, gall tystiolaeth o ymddygiad rhywiol ystumio'r broses o ganfod ffeithiau a dylanwadu'n amhriodol ar benderfyniadau rheithwyr mewn treialon. Ar ben hynny, gall croesholi ynghylch tystiolaeth o ymddygiad rhywiol beri gofid mawr, bychanu rhywun ac, mewn rhai achosion, achosi trawma. Yn ei hanfod, mae tystiolaeth o ymddygiad rhywiol yn bersonol ac mae defnyddio tystiolaeth o'r fath ym mhroses y treial yn arfer hawl gymwys yr achwynydd i barch at ei fywyd preifat o dan erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Am y rhesymau hyn, yng Nghymru a Lloegr, fel llawer o awdurdodaethau, mae defnyddio tystiolaeth o ymddygiad rhywiol wedi'i gyfyngu mewn treialon troseddau rhywiol. Gelwir y deddfau sy'n cyfyngu ar ddefnyddio tystiolaeth o'r fath yn "ddeddfwriaeth gwarchod treisio". Yma, rydym yn egluro ein hargymhellion ar gyfer dull newydd o ymdrin â derbynioldeb tystiolaeth o ymddygiad rhywiol sy'n diogelu buddiannau cyfiawnder a hawliau'r unigolion yn well.



**Deddfwriaeth gwarchod treisio**: cyfraith sy'n cyfyngu ar ddefnyddio tystiolaeth o ymddygiad rhywiol achwynydd oherwydd y risg y bydd yn cyflwyno mythau a chamsyniadau a fydd yn dylanwadu ar benderfyniadau, ac yn gwneud yr achwynydd yn agored i gwestiynau anghymesur o ymwthiol

## Y gyfraith gyfredol

Mae'r ddeddfwriaeth bresennol ar gyfer gwarchod treisio yng Nghymru a Lloegr i'w gweld yn adran 41 o Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 ("adran 41"). Fe'i disgrifir fel "dull pedwar porth", ac mae adran 41 yn cyfyngu ar yr holl dystiolaeth o ymddygiad rhywiol y ceisir ei chyflwyno neu y gofynnir amdani ar ran yr amddiffyniad, oni bai ei bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer un o'r pedwar porth. Hefyd, rhaid i'r dystiolaeth fod yn berthnasol i achos neu achosion penodol o ymddygiad rhywiol a rhaid i'r llys fod yn fodlon y gallai peidio â derbyn y dystiolaeth wneud i'r rheithgor ddod i gasgliad "ansicr" ar unrhyw fater perthnasol yn yr achos.

Dyma'r pedwar porth:

1) Ddim yn ymwneud â chydsyniad: Gellir derbyn tystiolaeth o ymddygiad rhywiol fel tystiolaeth o rywbeth ar wahân i gydsyniad yr achwynydd i'r gweithgaredd rhywiol gyda'r diffynnydd.

2) Tebygrwydd: Gellir derbyn tystiolaeth o ymddygiad rhywiol fel tystiolaeth bod yr achwynydd wedi cydsynio, os yw'r dystiolaeth yn "debyg iawn" i'r ymddygiad yn y trosedd honedig, neu i ymddygiad y dywedwyd ei fod wedi digwydd ar yr un pryd neu tua'r un pryd, "na ellir esbonio'r tebygrwydd yn rhesymol fel cyd-ddigwyddiad". Dan y porth hwn, gellir derbyn tystiolaeth o ymddygiad rhywiol hefyd os yw'n berthnasol iawn i'r mater o gydsyniad ac y byddai ei heithrio yn rhoi tegwch y treial yn y fantol.[8]

3) Cydamseredd: Gellir derbyn tystiolaeth o ymddygiad rhywiol fel tystiolaeth bod yr achwynydd wedi cydsynio os yw'n ymwneud ag ymddygiad rhywiol a ddigwyddodd "ar yr un pryd neu tua'r un pryd" â'r drosedd honedig.

4) Gwrthbrofi: Gellir derbyn tystiolaeth o ymddygiad rhywiol dim ond os caiff ei defnyddio i wrthbrofi tystiolaeth a gyflwynir gan yr erlyniad.

I fod yn dderbyniol dan byrth (1) i (3), ni ddylid defnyddio'r dystiolaeth o ymddygiad rhywiol at y diben, neu'r prif ddiben, o fygwth hygrededd yr achwynydd.

Ar ôl dadansoddi sut mae'n cael ei defnyddio, ei beirniadu a'i herio'n ymarferol, rydym yn dod i'r casgliad bod y ddeddfwriaeth bresennol ar gyfer gwarchod treisio yn rhy eang ac yn rhy gyfyngol. Mae hefyd yn rhy gymhleth, sy'n arwain at anghysondeb wrth ei defnyddio, a diffyg tryloywder wrth wneud penderfyniadau. Nid yw'n canolbwyntio ar risgiau derbyn tystiolaeth o'r fath, nac a oes angen ei derbyn i gael treial teg. Credwn fod hyn yn broblematig.

## Fframwaith newydd

Er mwyn i unrhyw fframwaith sy'n cyfyngu ar dystiolaeth o ymddygiad rhywiol fod yn effeithiol ac yn deg, dylai:

1) hwyluso proses briodol o gwestiynu perthnasedd;

2) cael trothwy derbynioldeb sy'n uwch na pherthnasedd yn unig;

3) peidio â gwahardd tystiolaeth o ymddygiad rhywiol yn llwyr;

4) caniatáu i dystiolaeth gael ei derbyn os yw'n angenrheidiol i gael treial teg.

Gyda'r ystyriaethau hyn mewn golwg, rydym wedi datblygu model disgresiwn strwythuredig newydd i gyfyngu ar ddefnyddio tystiolaeth o ymddygiad rhywiol mewn treialon, gyda throthwy perthnasedd uwch.

**Model disgresiwn strwythuredig**: fframwaith sy'n cyfyngu ar ddefnyddio tystiolaeth drwy sefydlu trothwy ar gyfer derbyn, gyda set o ffactorau y mae'n rhaid eu hystyried wrth benderfynu a yw'r trothwy hwnnw'n cael ei fodloni ym mhob achos.

[8] *R v A (No 2)* [2001] UKHL 25 [46].

Rydym o'r farn bod y model hwn yn fframwaith mwy rhesymegol a hyblyg, gyda throthwy uchel priodol. Bydd yn helpu i sicrhau mwy o gysondeb a chraffu priodol ar dystiolaeth o ymddygiad rhywiol gan ystyried ei holl risgiau, a llwybr cliriach ar gyfer derbyn tystiolaeth o'r fath pan fydd ei hangen ar gyfer treial teg. Rydym wedi mireinio nodweddion y model hwn ar ôl ymgynghori i sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau wedi'i strwythuro'n briodol ac i greu proses sy'n cefnogi defnydd cyson a theg. Credwn y bydd y model hwn yn fwyaf effeithiol os bydd yn gweithredu ochr yn ochr â'r argymhellion eraill yn yr adroddiad hwn sydd wedi'u llunio i leihau'r risg o fythau a chamsyniadau'n dylanwadu'n amhriodol ar y treial, a sicrhau bod yr achwynydd yn cael ei drin yn ddyngarol. Mae hyn yn cynnwys rhoi hawl i'r achwynydd gael gwrandawiad a chael cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol annibynnol ar geisiadau sy'n ymwneud â thystiolaeth o'i ymddygiad rhywiol (gweler isod am ragor o fanylion).

## Prawf derbynioldeb dau gam

### Argymhelliad

Rydym yn argymell y dylid caniatáu derbyn tystiolaeth o ymddygiad rhywiol o dan yr amgylchiadau hyn yn unig:

1) bod gwerth sylweddol i'r dystiolaeth mewn perthynas â mater dan sylw yn yr achos a'i bod yn sylweddol bwysig yng nghyd-destun yr achos yn ei gyfanrwydd ("cam 1");

2) na fyddai ei derbyn yn dylanwadu'n sylweddol ar y broses o weinyddu cyfiawnder yn briodol ("cam 2").

I fod yn dderbyniol, yn gyntaf, rhaid i'r dystiolaeth fod o werth sylweddol. Asesiad yw hwn o werth y dystiolaeth ei hun. Os nad yw'n cyrraedd y trothwy hwn, ni ellir ei derbyn.

Yn ail, os oes gwerth sylweddol i'r dystiolaeth, rhaid i'r llys fod yn fodlon hefyd na fyddai ei derbyn yn dylanwadu'n sylweddol ar y gwaith o weinyddu cyfiawnder yn briodol. Asesiad yw hwn o'r dystiolaeth yng nghyd-destun ehangach treial teg a chyfiawn. Pe bai derbyn y dystiolaeth yn amharu'n sylweddol ar y broses o weinyddu cyfiawnder yn briodol, ni fyddai'n dderbyniol. Mae hyn yn golygu y gall tystiolaeth o ymddygiad rhywiol sydd â gwerth sylweddol fod yn annerbyniol o hyd os nad yw'n bodloni'r ail gam. Bydd y prawf dau gam yn gweithredu i sicrhau bod tystiolaeth o ymddygiad rhywiol yn dderbyniol pan fydd yn angenrheidiol ar gyfer treial teg.

**Cam 1: A oes gwerth sylweddol i'r dystiolaeth mewn perthynas â mater pwysig dan sylw?**

Mae'r risg y bydd tystiolaeth o ymddygiad rhywiol yn cyflwyno mythau i broses y treial, yn dylanwadu'n amhriodol ar benderfyniadau'r rheithgor, ac yn achosi trallod a chywilydd anghymesur i achwynwyr. Mae hyn yn cyfiawnhau trothwy uwch ar gyfer derbynioldeb na'r trothwy perthnasedd safonol.

O dan ein model, er mwyn i dystiolaeth o ymddygiad rhywiol fod yn dderbyniol, rhaid iddi fod o werth sylweddol i'r mater dan sylw yn yr achos. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddi fod yn sylweddol o bwysig yng nghyd-destun yr achos yn ei gyfanrwydd. Ni ellir derbyn tystiolaeth o ymddygiad rhywiol â "rhywfaint" o werth yn unig, fel sy'n ofynnol dan y prawf perthnasedd syml. Mae'r cam hwn o'r prawf yn debyg i'r trothwy presennol ar gyfer derbyn tystiolaeth o gymeriad drwg.[9]

Er mwyn gwella craffu, rydym yn argymell rhestr o ffactorau i'w hystyried wrth asesu gwerth tystiolaeth o ymddygiad rhywiol. Ni fyddant i gyd yn berthnasol ym mhob cais am dystiolaeth o ymddygiad rhywiol ac felly nid ydynt yn ystyriaethau gorfodol.

[9] Gweler trafodaeth bellach ar drothwy "gwerth tystiolaethol sylweddol" yn Evidence in sexual offences prosecutions: a final report (2025) Comisiwn y Gyfraith Rhif 420, paragraffau 3.52-3.59.

`

## Argymhelliad

Er mwyn llywio'r asesiad o werth tystiolaethol, o dan gam 1, efallai y bydd y barnwr yn dymuno ystyried:

1) natur a nifer y digwyddiadau, neu bethau eraill, y mae'r dystiolaeth yn ymwneud â nhw;

2) pryd yr honnir bod y digwyddiadau neu'r pethau hynny wedi digwydd neu wedi bodoli;

3) pan awgrymir bod gwerth i'r dystiolaeth o ymddygiad rhywiol oherwydd bod tebygrwydd rhyngddi a'r ymddygiad rhywiol yr honnir ei fod wedi digwydd, natur a graddau'r tebygrwydd a'r annhebygrwydd rhwng y dystiolaeth o ymddygiad rhywiol a'r ymddygiad rhywiol yr honnir ei fod wedi digwydd;

4) i ba raddau y mae'r dystiolaeth yn angenrheidiol i wrthbrofi neu egluro tystiolaeth a gyflwynwyd gan barti arall;

5) i ba raddau y gallai'r dystiolaeth dynnu sylw'r sawl sy'n canfod ffeithiau oddi wrth brif faterion yr achos;

6) y risg bod gwerth y dystiolaeth yn dibynnu ar fythau neu gamsyniadau.

**Cam 2: A fyddai defnyddio'r dystiolaeth yn dylanwadu'n sylweddol ar y broses o weinyddu cyfiawnder yn briodol?**

Mae Cam 2 yn gofyn am ystyried y dystiolaeth yng nghyd-destun ehangach treial teg a chyfiawn. Dim ond os bydd y diffynnydd yn cael treial teg y gweinyddir cyfiawnder yn briodol.

Er mwyn gweinyddu cyfiawnder yn briodol, rhaid sicrhau hefyd:

1) bod y dystiolaeth angenrheidiol gerbron y rheithgor;

2) nad yw'r dystiolaeth a gyflwynir yn y treial yn dylanwadu'n ormodol ar y rheithgor;

3) nad yw'r rheithgor yn rhoi sylw i resymu annerbyniol;

4) bod hawliau a lles achwynwyr yn cael eu parchu.

Mae'r gofyniad na ddylai derbyn tystiolaeth o ymddygiad rhywiol "ddylanwadu'n sylweddol ar y broses o weinyddu cyfiawnder yn briodol" yn rhan o achos nodedig Tŷ'r Arglwyddi ar dystiolaeth o ymddygiad rhywiol, R v A (*Rhif 2*)[10] ac mae'n rhan o fodelau disgresiwn strwythuredig Canada a'r Alban.

## Argymhelliad

Wrth asesu a yw cam 2 yn cael ei gyflawni, rydym yn argymell bod yn rhaid i'r barnwr ystyried pob un o'r ffactorau canlynol:

1) yr effaith ar hawliau cyfreithiol yr achwynydd, gan gynnwys parch at urddas a phreifatrwydd yr achwynydd;

1) yr effaith ar fuddiannau cyfiawnder, gan gynnwys yr hawl i dreial teg;

2) y risg o gyflwyno mythau neu gamsyniadau yn y treial.

Bydd perthnasedd y ffactorau'n amrywio yn dibynnu ar fanylion penodol y dystiolaeth o ymddygiad rhywiol a ffeithiau'r achos. Nid yw'r rhestr hon o ffactorau yn gyflawn, ac nid oes un ffactor diffiniol; yn hytrach, rhaid i'r barnwr eu hasesu ar y cyd i benderfynu a fyddai derbyn y dystiolaeth yn dylanwadu ar y broses o weinyddu cyfiawnder, ac os felly, i ba raddau.

[10] [2001] UKHL 25.

## Cyfyngiadau hygrededd

Mae'r gyfraith bresennol yn atal defnyddio tystiolaeth o ymddygiad rhywiol at ddibenion (neu brif ddiben) herio hygrededd yr achwynydd. Mae herio hygrededd yr achwynydd yn cynnwys cwestiynu a yw'n wir, yn ddibynadwy neu'n gyson.

Rydym yn gweld gwerth mewn cyfyngu ar ddefnyddio tystiolaeth o ymddygiad rhywiol i awgrymu nad oes gan yr achwynydd hygrededd. Fodd bynnag, rydym wedi ailstrwythuro'r cyfyngiad hwn i dargedu'n well y defnydd problemus o dystiolaeth o ymddygiad rhywiol. Credwn y dylid gwahardd derbyn tystiolaeth o ymddygiad rhywiol fel tystiolaeth bod yr achwynydd yn “anllad” ac felly na ddylid ei gredu. Mae hyn yn diogelu rhag defnyddio mythau am achwynwyr, gan sicrhau bod modd defnyddio tystiolaeth angenrheidiol sy'n ymwneud â hygrededd yn y llys o hyd. Mae'r cyfyngiad hwn yn sicrhau nad yw tystiolaeth o ymddygiad rhywiol sy'n dibynnu ar natur rywiol yr ymddygiad i gwestiynu hygrededd yr achwynydd yn dderbyniol yn y llys. Mae hefyd yn golygu bod modd derbyn tystiolaeth o ymddygiad rhywiol sy'n ymwneud â'r mater hygrededd yn yr achos os yw'n cyrraedd y trothwy.

## Diffiniad o ymddygiad rhywiol

Mae'r term “ymddygiad rhywiol” yn adran 41 wedi'i ddehongli'n eang. Mae diffiniad eang a hyblyg yn sicrhau bod tystiolaeth sy'n ymwneud ag ymddygiad rhywiol yn dod o fewn cwmpas y drefn a'i bod yn destun craffu barnwrol. Rydym yn dod i'r casgliad y dylid cadw'r diffiniad presennol o “ymddygiad rhywiol”.

Rydym hefyd yn fodlon bod y diffiniad presennol o ymddygiad rhywiol yn cwmpasu mathau mwy modern o ymddygiad rhywiol fel negeseuon ac ymddygiad rhywiol ar-lein mewn gofodau realiti rhithwir. Nid ydym yn argymell cyfeirio at gyfathrebu ar-lein yn y diffiniad fel ei fod yn hyblyg wrth i dechnoleg newid.

## Tystiolaeth o berthynas

Gyda nifer sylweddol o droseddau rhywiol yn digwydd rhwng pobl sy'n adnabod ei gilydd, gall y ffaith bod perthynas o unrhyw fath rhwng yr achwynydd a'r diffynnydd helpu'r rheithgor i ddeall cyd-destun yr achos a dehongli'r dystiolaeth. Felly, mae tystiolaeth bod yr achwynydd a'r diffynnydd mewn perthynas (“tystiolaeth o berthynas”) yn bwysig er mwyn esbonio'r cyd-destun hwn. Mae risg y gall tystiolaeth o berthynas annog mythau, yn enwedig am gydsyniad yng nghyd-destun perthnasoedd. Fodd bynnag, credwn fod y tebygolrwydd y bydd y rheithgor yn llunio rhagdybiaethau amhriodol o ganlyniad i dystiolaeth o berthynas sy'n esboniadol yn unig yn is o lawer nag ar gyfer mathau eraill o dystiolaeth o ymddygiad rhywiol. O ystyried gwerth esboniadol y dystiolaeth, nid yw'n gymesur cyfyngu ar dderbynioldeb tystiolaeth o berthynas oherwydd y risg o fythau. Rydym yn argymell na ddylai tystiolaeth o berthynas sy'n berthnasol fel tystiolaeth esboniadol neu gefndir yn unig fod o fewn cwmpas unrhyw fframwaith sy'n cyfyngu ar ddefnyddio tystiolaeth o ymddygiad rhywiol.

## Gweithdrefn

Rydym yn ystyried y weithdrefn ar gyfer partïon wrth wneud ceisiadau i gyflwyno tystiolaeth o ymddygiad rhywiol ac ar gyfer barnwyr wrth gyflwyno eu penderfyniad mewn ymateb i gais.

Dywedwyd wrthym fod trefn bresennol ceisiadau am dystiolaeth o ymddygiad rhywiol yn gweithio'n dda; mae hyn yn cynnwys y gofyniad i'r cais gael ei wneud yn ysgrifenedig a chynnwys manylion y dystiolaeth neu'r cwestiynau.[11]

Ar hyn o bryd, nid yw'n ofynnol i farnwyr roi rhesymau ysgrifenedig dros geisio tystiolaeth o ymddygiad rhywiol. Byddai rhesymau ysgrifenedig yn hyrwyddo tryloywder a chysondeb ac yn gwella'r broses o graffu ar y penderfyniadau heriol hyn.

[11] Rheolau Trefniadaeth Droseddol (“CrimPR”), r 22.

`

Rydym hefyd yn argymell y dylai'r fframwaith tystiolaeth o ymddygiad rhywiol fod yn berthnasol i'r amddiffyniad a'r erlyniad sy'n ceisio cyflwyno tystiolaeth o'r fath. Er y gallai fod yn briodol i'r erlyniad gyflwyno tystiolaeth o ymddygiad rhywiol mewn rhai amgylchiadau, mae natur y dystiolaeth yn golygu bod risg o hyd y bydd yn bychanu ac yn ymyrryd ym mywyd yr achwynydd, ac y gallai darfu ar ei breifatrwydd a chyflwyno mythau yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae'r fframwaith rydym yn ei argymell wedi'i ddylunio i graffu ar dystiolaeth o ymddygiad rhywiol er mwyn lleihau'r risgiau hyn, sy'n codi ni waeth pa barti sy'n ceisio cyflwyno'r dystiolaeth.

Rydym yn cydnabod goblygiadau'r gofynion ychwanegol hyn o ran adnoddau ond, yn y pen draw, rydym yn dod i'r casgliad bod y manteision yn eu cyfiawnhau.

### Argymhelliad

Rydym yn argymell cadw at y drefn bresennol ar gyfer gwneud ceisiadau am dystiolaeth o ymddygiad rhywiol.

Rydym yn argymell y dylai fod yn ofynnol i'r barnwr roi rhesymau ysgrifenedig dros ei benderfyniad ar gais i gyflwyno tystiolaeth o ymddygiad rhywiol, gan fynd i'r afael â'r prawf dau gam, gan gynnwys y ffactorau gorfodol o dan gam 2.

# Honiadau blaenorol o droseddu rhywiol

Yma rydym yn ystyried tystiolaeth bod yr achwynydd wedi gwneud honiad o droseddu rhywiol nad yw dan sylw yn y treial. Gan amlaf, mae'r math hwn o dystiolaeth yn cael ei hystyried yn "dystiolaeth o honiad ffug" ("FAE") gan ei bod fel arfer yn cael ei ddefnyddio i awgrymu bod yr achwynydd wedi dweud celwydd am yr honiad blaenorol, i gefnogi achos yr amddiffyniad bod yr achwynydd yn dweud celwydd am yr honiad ar dreial hefyd, neu'n gyffredinol i godi amheuaeth am hygrededd yr achwynydd. Fodd bynnag, nid yw pob honiad blaenorol y ceisir ei gyflwyno mewn treial yn ffug, felly mae angen ystyried sut dylai'r gyfraith fynd i'r afael â'r ystod lawn o dystiolaeth o honiadau blaenorol o droseddu rhywiol.

## Y broblem

Gall honiadau blaenorol gan yr achwynydd ei fod wedi dioddef trosedd rhywiol fod yn berthnasol mewn treial troseddau rhywiol. Gall tystiolaeth bod achwynydd wedi gwneud honiad tebyg iawn yn y gorffennol y profwyd ei fod yn ffug, fod yn dystiolaeth bwysig i'r rheithgor ei hystyried. Gall tystiolaeth bod yr achwynydd wedi gwneud honiad blaenorol nad oedd yn ffug hefyd fod yn berthnasol i ffaith dan sylw.

P'un a yw'r honiad yn ffug ai peidio, mae tystiolaeth o honiad blaenorol o drosedd rhywiol hefyd yn cynnwys yr un risgiau â thystiolaeth o ymddygiad rhywiol oherwydd ei natur rywiol: y risg o dynnu sylw'r rheithgor oddi wrth faterion yr achos; achosi gofid heb gyfiawnhad i'r achwynydd; a chyflwyno mythau a chamsyniadau am ymddygiad rhywiol a thrais rhywiol (gan gynnwys y myth cyffredin bod honiadau o droseddu rhywiol yn aml yn ffug).

Yn ogystal, mae pryderon na chreffir yn drylwyr ar "ffugioldeb" honiadau blaenorol yn y cyd-destun hwn. Mae'r pryderon hyn yn ymwneud â dadleuon, fel arfer gan yr amddiffyniad, bod honiad blaenorol yn ffug pan nad oes digon o dystiolaeth bod yr honiad yn ffug mewn gwirionedd.

## Y gyfraith gyfredol

Os yw'n dystiolaeth o "ymddygiad sy'n deilwng o gerydd", mae tystiolaeth o honiad ffug yn enghraifft o dystiolaeth o gymeriad drwg. Mae defnyddio tystiolaeth o gymeriad drwg sy'n ymwneud â'r achwynydd (neu unrhyw dyst) wedi'i gyfyngu dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 oherwydd ei risg gynhenid o niweidio'r rheithgor. Mae'r fframwaith statudol yn gosod trothwy uwch ar gyfer derbynioldeb na pherthnasedd, oni bai fod pob parti'n cytuno i'w derbyn (trafodir tystiolaeth o gymeriad drwg yn fanylach isod).

Gan y bydd tystiolaeth o ymddygiad drwg yn debygol o gynnwys natur rywiol, gall hefyd ddod o fewn y diffiniad o ymddygiad rhywiol ac felly mae'n ddarostyngedig i gyfyngiadau tystiolaeth o ymddygiad rhywiol (o dan adran 41 o Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 a ddisgrifir uchod).

Pan fo'r dystiolaeth yn ymwneud â chelwyddau gan yr achwynydd, yn hytrach na'r ymddygiad rhywiol ei hun, dylid ei hystyried o dan y fframwaith tystiolaeth o gymeriad drwg yn hytrach na'r fframwaith tystiolaeth o ymddygiad rhywiol.[12] Yn ymarferol, nid yw bob amser yn glir pa drothwy sy'n berthnasol. Mae'r ddau fframwaith yn wahanol, ac nid yw mor syml â defnyddio'r ddau mewn un cais. Ar ben hynny, gall gweithredu'r cyfyngiad hygrededd yn adran 41 atal tystiolaeth o honiad ffug rhag cael ei derbyn. Os bydd parti'n ceisio derbyn tystiolaeth o honiad ffug drwy ddarpariaethau tystiolaeth o gymeriad drwg yn unig (yn hytrach na darpariaethau tystiolaeth o ymddygiad rhywiol) dylid cael "sail dystiolaethol briodol" dros ddatgan ei fod yn honiad ffug.

Byddai derbynioldeb tystiolaeth o honiadau blaenorol o droseddu rhywiol na ddywedwyd eu bod yn ffug yn cael ei ystyried ar hyn o bryd naill ai o dan y trothwy perthnasedd cyffredinol, neu o

[12] Gweler *R v V* [2006] EWCA Crim 1901 yn [21].

`

dan adran 41 o Ddeddf 1999 os yw'r dystiolaeth yn dod o fewn y diffiniad o "ymddygiad rhywiol".

Yn ogystal â'r gwahaniaeth dryslyd rhwng tystiolaeth o honiad ffug a thystiolaeth o ymddygiad rhywiol, rydym yn poeni nad yw'n foddhaol defnyddio'r fframwaith cymeriad drwg yn unig ar gyfer tystiolaeth o honiad ffug. Y rheswm dros hyn yw ei bod hi'n haws cyrraedd y trothwy tystiolaeth o gymeriad drwg na'r fframwaith tystiolaeth o ymddygiad rhywiol, ac nid yw wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â'r un risgiau. Gwnaethom gynnig dros dro y dylai tystiolaeth o honiad ffug gael ei lywodraethu gan yr un fframwaith â thystiolaeth o ymddygiad rhywiol, a fyddai'n mynd i'r afael yn well â'r risgiau tebyg sy'n codi.

Rydym yn cydnabod nad tystiolaeth o ymddygiad rhywiol yw'r categori priodol bob amser ar gyfer tystiolaeth o honiad ffug. Gall gwneud honiad ffug fod yn ymddygiad sy'n deilwng o gerydd ac mae rhai'n dadlau mai tystiolaeth o gymeriad drwg yw'r ffordd fwyaf priodol o ddelio ag ef. Fodd bynnag, mae trothwy uchel a chraffu trylwyr ar y math hwn o dystiolaeth yn bwysig os oes risg o ddylanwadu ar y rheithgor.

## Ein hargymhellion

Yn ein barn ni, mae gwahaniaeth defnyddiol rhwng y fframweithiau tystiolaeth o ymddygiad rhywiol a thystiolaeth o gymeriad drwg, a dylid cadw'r gwahaniaeth hwn. Fel y disgrifir uchod, mae'r diffiniad o ymddygiad rhywiol yn eang. Mae'n cynnwys achosion lle na ddigwyddodd unrhyw weithgarwch rhywiol corfforol, cyfathrebu rhywiol ar-lein a gweithgarwch rhywiol heb gydsyniad. Os yw'r dystiolaeth o honiad yn dod o fewn y diffiniad o "ymddygiad rhywiol", dylai'r fframwaith tystiolaeth o ymddygiad rhywiol fod yn berthnasol. Os ddim, naill ai:

1) bydd y fframwaith cymeriad drwg yn berthnasol os dywedir bod tystiolaeth o honiad yn ffug, sy'n gyfystyr ag ymddygiad sy'n deilwng o gerydd; neu

2) bydd y trothwy perthnasedd yn berthnasol os na ddywedir bod y dystiolaeth o honiad yn ffug, neu os nad yw'n cael ei defnyddio fel tystiolaeth o gamymddygiad gan yr achwynydd.

**Craffu'n fanylach ar dystiolaeth o honiad ffug**

### Argymhelliad

Rydym yn argymell y dylai defnyddio tystiolaeth o honiad blaenorol (ffug neu beidio) gael ei reoleiddio gan y fframwaith tystiolaeth o ymddygiad rhywiol os yw'r dystiolaeth y ceisir ei chyflwyno, neu'r cwestiynau y ceisir eu gofyn, yn dod o fewn y diffiniad o "ymddygiad rhywiol".

Rydym yn dal yn poeni nad oes darpariaeth benodol yn y fframwaith tystiolaeth o gymeriad drwg ar hyn o bryd i ystyried y risgiau penodol sy'n gysylltiedig â natur rywiol honiadau blaenorol.

Clywsom bryderon hefyd gan rai ymgyngoreion nad yw llysoedd bob amser yn craffu'n briodol ar b'un a oedd honiad blaenorol yn ffug. Er mwyn cwestiynu anwiredd yn well, rydym yn argymell na ddylid trin rhai ffeithiau'n dystiolaeth ddigonol o anwiredd ar eu pen eu hunain.

### Argymhelliad

Pan fydd tystiolaeth o honiad blaenorol yn cael ei hystyried o dan y fframwaith cymeriad drwg, rydym yn argymell y dylai fod yn ofynnol i farnwyr ystyried y risg o gyflwyno neu barhau â mythau a chamsyniadau, yn debyg i'r gofyniad i ystyried y risg o gyflwyno neu barhau â mythau a chamsyniadau yn y fframwaith tystiolaeth o ymddygiad rhywiol.

Rydym yn argymell na ddylai'r canlynol, ar eu pen eu hunain, fod yn "sail dystiolaethol briodol" bod honiad blaenorol o droseddu rhywiol yn ffug:

1) gwneud cwyn a pheidio â mynd ar drywydd cwyn;

2) penderfyniad i beidio â chymryd camau pellach, i beidio â chyhuddo neu i beidio ag erlyn;

3) rhyddfarn.

## Tystiolaeth i Ddigolledu am Anafiadau Troseddol

Mae gan ddioddefwyr troseddau treisgar hawl i wneud cais am iawndal dan y cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol ("CIC") a ariennir gan y Llywodraeth. Mae tystiolaeth i Ddigolledu am Anafiadau Troseddol ("CICE") yn cyfeirio at dystiolaeth bod achwynydd wedi gwneud cais am iawndal, neu wedi cael iawndal, o dan y cynllun CIC ar ôl rhoi gwybod am drosedd.

### Y broblem

Mae tystiolaeth yn dangos bod CICE yn cael ei defnyddio mewn achosion troseddau rhywiol yn amlach na mathau eraill o achosion.[13] Gellir defnyddio'r dystiolaeth hon mewn achosion troseddau rhywiol i atgyfnerthu mythau niweidiol, drwy awgrymu bod yr achwynydd yn cael ei gymell i ddweud celwydd am honiad o drosedd rhywiol er budd ariannol. Yn ogystal â'r posibilrwydd o ddylanwadu ar benderfyniadau'r rheithgor, gall hyn atal achwynwyr rhag gwneud cais am iawndal oherwydd eu bod yn ofni y bydd yn cael ei ddefnyddio yn eu herbyn yn y llys.

Ar hyn o bryd, mae derbynioldeb CICE a chroesholi ynghylch hawliadau CIC yn cael ei lywodraethu gan y prawf perthnasedd arferol. Heb drothwy uwch i gyfyngu ar gyflwyno CICE, mae risg y bydd y dystiolaeth ragfarnllyd hon yn cael ei defnyddio mewn treialon troseddau rhywiol i ddylanwadu ar y rheithgor ar sail mythau a chamsyniadau.

### Fframwaith newydd

Yn ein barn ni, yr ymateb mwyaf addas i'r risgiau a berir gan CICE yw cyflwyno trothwy uwch er mwyn caniatáu i'r dystiolaeth hon gael ei chyflwyno a mynnu mwy o ystyriaeth o'r buddiannau perthnasol sydd yn y fantol.

Er y gallai rhai o'r risgiau sy'n gysylltiedig â CICE gael eu rheoli gan farnwyr yn ystod achosion, nid ydym o'r farn bod y mesurau hyn yn ddigonol i fynd i'r afael â'r risg o ragfarn a gyflwynir gan y math hwn o dystiolaeth.

Rydym hefyd yn cydnabod bod angen caniatáu i rywfaint o CICE fod yn dderbyniol oherwydd efallai y bydd yn angenrheidiol i sicrhau bod y diffynnydd yn cael treial teg. Gallai hyn fod, er enghraifft, pan fydd anghysondeb yn yr hyn y mae'r achwynydd wedi'i ddweud am wneud hawliad am iawndal, neu os oes tystiolaeth arall yn cefnogi dadl bod yr achwynydd wedi dweud celwydd er budd ariannol.

Yn unol â'n dull o ymdrin â thystiolaeth o ymddygiad rhywiol, rydym yn dod i'r casgliad y dylai unrhyw fframwaith sy'n cyfyngu ar CICE i fod yn effeithiol ac yn deg:

1) hwyluso proses briodol i gwestiynu perthnasedd;
2) cael trothwy derbynioldeb sy'n uwch na pherthnasedd yn unig;
3) peidio â gwahardd pob CICE yn llwyr;
4) caniatáu i dystiolaeth gael ei derbyn os yw'n angenrheidiol i gael treial teg.

### Prawf derbynioldeb dau gam

Mae'r prawf rydym yn ei argymell ar gyfer derbyn CICE yn dilyn strwythur dau gam tebyg i'r model tystiolaeth o ymddygiad rhywiol.

[13] Dywedodd yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol wrthym ei fod wedi cael 392 cais am ddata personol gan yr heddlu yng Nghymru, Lloegr a'r Alban rhwng 1 Ebrill 2022 a 15 Mai 2023. Roedd yn gallu nodi cais perthnasol ar gyfer 243 o'r ceisiadau hynny ac o'r rheini, roedd 191 yn ymwneud â hawliadau a wnaed ar gyfer ymosodiadau rhywiol.

`

### Argymhelliad

Rydym yn argymell na ddylai tystiolaeth o hawliad CIC fod yn dderbyniol oni bai:

(1) bod gwerth sylweddol i'r dystiolaeth mewn perthynas â mater dan sylw yn yr achos a'i bod yn sylweddol bwysig yng nghyd-destun yr achos yn ei gyfanrwydd ("cam 1");

(2) na fyddai ei derbyn yn dylanwadu'n sylweddol ar y broses o weinyddu cyfiawnder yn briodol ("cam 2").

### Argymhelliad

Wrth asesu a yw cam 2 yn cael ei gyflawni, rydym yn argymell bod yn rhaid i'r barnwr ystyried pob un o'r ffactorau canlynol:

1) yr effaith ar hawliau cyfreithiol yr achwynydd, gan gynnwys parch at urddas a phreifatrwydd yr achwynydd;

2) yr effaith ar fuddiannau cyfiawnder, gan gynnwys yr hawl i dreial teg;

3) y risg o gyflwyno mythau neu gamsyniadau yn y treial.

**Cam 1: A oes gwerth sylweddol i'r dystiolaeth mewn perthynas â mater pwysig dan sylw?**

Dan ein model ni, rhaid i'r llys benderfynu'n gyntaf a oes gwerth sylweddol i'r dystiolaeth. Mae hwn yn drothwy uchel sy'n sicrhau mai dim ond tystiolaeth sydd o werth sylweddol i fater allweddol yn yr achos sy'n cael ei derbyn. Mae'r trothwy hwn yn helpu i eithrio honiadau rhagfarnllyd neu ddamcaniaethol, fel tybiaethau cyffredinol bod achwynwyr yn dweud celwyddau'n rheolaidd am honiadau o droseddau rhywiol a'u bod yn gwneud hynny er budd ariannol.

**Cam 2: A fyddai defnyddio'r dystiolaeth yn dylanwadu'n sylweddol ar y broses o weinyddu cyfiawnder yn briodol?**

Mae Cam 2 yn canolbwyntio ar b'un a fyddai derbyn CICE yn dylanwadu'n sylweddol ar y broses o weinyddu cyfiawnder yn briodol.

Yn yr un modd â cham 2 y prawf tystiolaeth o ymddygiad rhywiol, nid yw'r ffactorau hyn yn gynhwysfawr, a bydd eu perthnasedd yn amrywio yn dibynnu ar yr achos unigol. Yn bwysig, nid oes un ffactor unigol yn pennu derbynioldeb yn awtomatig; yn hytrach, rhaid i farnwyr eu hystyried gyda'i gilydd.

### Gweithdrefn

Mae'r broses bresennol ar gyfer gwneud ceisiadau i gyflwyno tystiolaeth o ymddygiad rhywiol yn cynnwys ceisiadau ysgrifenedig a chraffu barnwrol, ni waeth pa barti sy'n cyflwyno'r dystiolaeth.[14] Rydym yn argymell y dylai'r broses ar gyfer gwneud cais i gyflwyno CICE fod yr un fath â'r broses a ddefnyddir ar gyfer partïon sy'n ceisio cyflwyno tystiolaeth o ymddygiad rhywiol.

Rydym hefyd yn argymell ei bod yn ofynnol i farnwyr egluro eu penderfyniadau'n ysgrifenedig, gan roi sylw i'r prawf a'r ffactorau o dan gam 2. Rydym o'r farn y byddai darparu rhesymau ysgrifenedig i egluro penderfyniadau ceisiadau CICE yn hyrwyddo tryloywder a chysondeb.

[14] Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999, s 43; CrimPR, r 22.2-r 22.4

# Tystiolaeth o gymeriad

Gall tystiolaeth o gymeriad da neu ddrwg person fod yn dderbyniol mewn treial troseddol. Gellid ei defnyddio i awgrymu y dylid (neu na ddylid) credu person (cyfeirir at hyn fel hygrededd). Gellid ei defnyddio hefyd i awgrymu bod gan berson duedd (neu nad oes ganddo duedd) i ymddwyn mewn ffordd benodol.

## Tystiolaeth o gymeriad drwg

### Beth yw tystiolaeth o gymeriad drwg?

Bydd tystiolaeth o gymeriad drwg naill ai'n "dystiolaeth o... gamymddwyn" neu'n "dystiolaeth o ... natur i gamymddwyn". Diffinnir "camymddwyn" fel "cyflawni trosedd neu ymddygiad arall sy'n deilwng o gerydd" (Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003, adrannau 98 a 112).

Yn gyntaf, rydym yn ystyried y sefyllfa lle mae tystiolaeth bod y diffynnydd wedi camymddwyn yn flaenorol, fel ymddygiad sy'n gorfodi neu'n rheoli, mathau eraill o gam-drin domestig, trais neu gamymddwyn rhywiol, ond nid yw'r camymddwyn hwn wedi arwain at euogfarn. Dywedodd rhanddeiliaid wrthym nad yw'r erlyniad yn aml yn ceisio cyflwyno'r math hwn o dystiolaeth nad yw'n ymwneud ag euogfarnau, ac nad yw'r dystiolaeth hon yn cael ei derbyn yn aml hyd yn oed pan fyddant yn ceisio gwneud hynny.

Bydd tystiolaeth bod diffynnydd wedi cymryd rhan mewn trosedd ond heb gael ei ddyfarnu'n euog o drosedd yn dystiolaeth o "ymddygiad sy'n deilwng o gerydd" ac sy'n gyfystyr â chymeriad drwg. Rhaid i dystiolaeth o gymeriad drwg ddod o fewn un o'r saith porth yn adran 101 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 i fod yn dderbyniol. Ar ben hynny, rhaid i'r dystiolaeth beidio â chael effaith mor andwyol ar degwch achosion i'r graddau ei bod yn cael ei heithrio o'r treial naill ai dan adran 101(3) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 neu adran 78 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984.

Mae'r fframwaith cyfreithiol presennol yn caniatáu i dystiolaeth o gymeriad drwg nad yw'n gysylltiedig ag euogfarn gael ei derbyn lle bo hynny'n briodol, yn amodol ar graffu barnwrol a mesurau diogelu i atal annhegwch i'r diffynnydd, ac felly nid ydym yn argymell ei ddiwygio. Nid yw'r dystiolaeth hon yn cael ei defnyddio'n ddigonol oherwydd problemau gydag adeiladu achosion ac ymchwiliadau, ac mae hyn eisoes yn cael sylw mewn canllawiau wedi'u diweddaru.

## Tystiolaeth o gymeriad da

Yn ail, rydym yn ystyried derbynioldeb tystiolaeth o gymeriad da ar gyfer diffynyddion ac achwynwyr oherwydd "anghydbwysedd" canfyddedig o ran derbynioldeb y dystiolaeth hon i ddiffynyddion o'i gymharu ag achwynwyr.

### Beth yw tystiolaeth o gymeriad da diffynnydd?

Bydd tystiolaeth o gymeriad da diffynnydd yn dystiolaeth nad oes ganddo unrhyw euogfarnau na rhybuddion blaenorol, ac nad oes honiad, cyfaddefiad na thystiolaeth o unrhyw ymddygiad arall sy'n deilwng o gerydd. Gellid hefyd ystyried bod gan ddiffynnydd sydd ag euogfarnau a/neu rybuddion hen, bach neu amherthnasol dystiolaeth o gymeriad da (*R v Hunter* [2015] EWCA Crim 631).

Gall tystiolaeth o gymeriad da'r diffynnydd fod yn berthnasol i'r treial a gallai atal yr amddiffyniad rhag cyflwyno'r dystiolaeth hon dorri hawl y diffynnydd i dreial teg. Yn unol â hynny, rydym yn argymell na ddylid diwygio derbynioldeb tystiolaeth o gymeriad da diffynyddion. Er ein bod yn cydnabod bod risg y gellid camddefnyddio'r dystiolaeth hon i gefnogi mythau am dreisio, dylid lliniaru'r risg hon drwy fesurau diogelu eraill, fel cyfarwyddydau barnwrol.

`

## Beth yw tystiolaeth o gymeriad da achwynydd?

Nid yw tystiolaeth o gymeriad da achwynydd fel arfer yn dderbyniol i ddangos ei fod, ar y cyfan, yn berson gonest y dylid ei gredu. Gellir derbyn y dystiolaeth os yw'n berthnasol i fater dan sylw yn y treial fel a oedd yr achwynydd wedi rhoi cydsyniad. Mae cyfraith achosion hefyd yn nodi bod tystiolaeth o gymeriad da achwynydd yn cynnwys tystiolaeth nad oes gan yr achwynydd euogfarnau blaenorol (*R v Mader* [2018] EWCA Crim 2454). Gallai hefyd gynnwys tystiolaeth bod yr achwynydd, er enghraifft, yn "cyd-dynnu'n dda â'i frodyr a'i chwiorydd, wedi gwneud yn dda yn yr ysgol, yn gwrtais ac yn dawel iawn ac yn parchu pobl" (*R v Tobin* [2003] EWCA Crim 190).

Rydym yn cydnabod bod pryderon y gallai tystiolaeth o gymeriad da achwynydd dynnu sylw'r rheithgor oddi wrth faterion canolog yr achos, arwain at holi achwynwyr yn fusneslyd, rhoi achwynwyr agored i niwed a lleiafrifol dan anfantais, a thanseilio hawl y diffynnydd i dreial teg. Rydym yn dod i'r casgliad na ddylid ehangu tystiolaeth o gymeriad da'r achwynydd y tu hwnt i'w dderbynioldeb cyfyngedig presennol.

Er ein bod yn derbyn y gallai tystiolaeth o gymeriad da achwynydd fod yn berthnasol mewn rhai achosion troseddau rhywiol, nid ydym yn credu y dylai fod yn dderbyniol dan fwy o amgylchiadau nag y mae ar hyn o bryd. Gallai defnyddio'r dystiolaeth hon yn fwy arwain at annhegwch i'r diffynnydd, ymyrryd â phreifatrwydd achwynwyr a rhoi'r rheini nad ydynt o gymeriad da dan anfantais, a pharhau â mythau am hygrededd a chydsyniad.

**Cyfarwyddydau cymeriad**

Yn hytrach nag ehangu derbynioldeb tystiolaeth o gymeriad da achwynydd, mae cyflwyno cyfarwyddyd barnwrol enghreifftiol yn ddull gwell a fyddai'n esbonio i'r rheithgor pam nad yw wedi clywed tystiolaeth o gymeriad yr achwynydd ond wedi clywed tystiolaeth o gymeriad y diffynnydd. Yn ein barn ni, cyfarwyddyd fyddai'n mynd i'r afael orau ag effaith yr anghydbwysedd rhwng derbynioldeb tystiolaeth o gymeriad da ar gyfer diffynyddion o'i gymharu ag achwynwyr.

Fel cyfarwyddyd esboniadol yn unig, ni fyddai'n arwain at annhegwch i'r diffynnydd drwy weithredu fel cyfarwyddyd "wrth gefn" ar gyfer cymeriad da.

## Argymhelliad

Rydym yn argymell y dylai'r Coleg Barnwrol ystyried a ddylid rhoi cyfarwyddyd enghreifftiol yng Nghompendiwm Llys y Goron ar gyfer adegau pan fydd y rheithgor wedi clywed tystiolaeth o gymeriad y diffynnydd, da neu ddrwg, ond heb glywed unrhyw dystiolaeth o gymeriad yr achwynydd. Dylai'r cyfarwyddyd hwn egluro'r rheolau cyfreithiol sy'n golygu nad ydynt wedi clywed unrhyw dystiolaeth o gymeriad yr achwynydd a chyfarwyddo'r rheithgor i beidio â damcaniaethu.

# Cynrychiolaeth a chyngor cyfreithiol annibynnol

Mae'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru a Lloegr yn wrthwynebol, sy'n golygu mai dim ond dau barti sydd yn yr achos: yr erlynydd a'r diffynnydd. Mae'r erlyniad yn cynrychioli buddiannau'r wladwriaeth a'r cyhoedd ac yn cyflwyno ei achos yn erbyn y diffynnydd i'w brofi gan yr amddiffyniad, ac i'r rheithgor benderfynu arno. Nid yw achwynwyr yn bartïon yn y broses droseddol. Fel arfer, mae eu rôl ffurfiol wedi'i chyfyngu i fod yn dyst dros yr erlyniad.

## Y broblem

Fel rydym wedi egluro, mae achwynwyr mewn achosion troseddau rhywiol yn aml yn wynebu'r posibilrwydd y bydd gwybodaeth bersonol sensitif iawn yn cael ei defnyddio i daflu amheuaeth arnynt, gan gynnwys drwy ddefnyddio cofnodion personol neu fanylion am eu hymddygiad rhywiol. Maent hefyd yn fwy tebygol o fod yn destun ceisiadau eang i gael mynediad at eu cofnodion o'i gymharu â thystion troseddau eraill. Mae'r materion hyn yn ymwneud â'u hawl i breifatrwydd o dan erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Ar hyn o bryd, ychydig o allu sydd gan achwynwyr i ddylanwadu ar sut mae cael gafael ar wybodaeth o'r fath neu sut caiff ei defnyddio mewn achosion. Er y gall yr erlyniad gyflwyno dadleuon ar ran yr achwynydd, nid oes rheidrwydd arno i wneud hynny, a gallai safbwynt yr erlyniad fod yn groes i safbwynt yr achwynydd.

Er mwyn ymateb i'r pryderon hyn, rydym yn archwilio a ddylid caniatáu i achwynwyr gyflwyno dadleuon a mynegi eu barn am faterion penodol sydd fwyaf tebygol o effeithio ar eu preifatrwydd, ac a ddylent gael cyngor, cymorth a chynrychiolaeth gyfreithiol (“ILA” ac “ILR”) i'w cynorthwyo.

## Hawl i'r achwynydd gael gwrandawiad

Er bod yr achwynydd fel arfer yn dyst i'r erlyniad, mae risg na fydd erlynwyr bob amser yn diogelu preifatrwydd achwynwyr yn llawn oherwydd eu dyletswydd i'r cyhoedd. Mae rhoi llais a chymorth cyfreithiol i achwynwyr yn helpu i sicrhau bod eu hawliau'n cael eu cynrychioli'n briodol. Gall hefyd wella eu hymddiriedaeth yn y system gyfiawnder drwy wneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u parchu fwy.

Yn unol â hynny, rydym yn dod i'r casgliad y dylai achwynwyr gael yr hawl i gael eu clywed gan y llys pan allai eu gwybodaeth breifat gael ei chyflwyno yn y treial. Ni fyddai'r hawl hon yn golygu bod achwynydd yn barti yn yr achos, fel yr erlyniad a'r amddiffyniad, ond byddai'n caniatáu iddo gyflwyno dadleuon a mynegi ei farn am faterion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ei breifatrwydd.

### Argymhelliad

Rydym yn argymell y dylid rhoi hawl gyfyngedig i achwynwyr gael eu clywed mewn achosion llys lle gwneir penderfyniadau ynghylch a ddylid eu gorfodi i gyflwyno eu cofnodion personol a derbynioldeb tystiolaeth sy'n ymwneud â'u hymddygiad rhywiol.

`

**Cynrychiolaeth a chyngor cyfreithiol annibynnol**

Mae **cyngor cyfreithiol** yn gyngor a ddarperir gan weithiwr cyfreithiol proffesiynol annibynnol a chymwys i unigolyn am fater, cwestiwn neu achos penodol yn seiliedig ar ei gyfarwyddiadau. Mewn rhai achosion, gall y cyngor gynnwys "cymorth" sy'n golygu ymgysylltu â deunydd, partïon neu sefydliadau eraill ar ran yr unigolyn lle caniateir hynny.

Mae **cynrychiolaeth gyfreithiol** yn golygu bod person â chymwysterau cyfreithiol yn gweithredu ar ran unigolyn naill ai cyn achos neu yn ystod achos llys drwy ddilyn cyfarwyddiadau, rhoi cyngor, a chyflwyno sylwadau i bartïon eraill neu i'r llys ar eu rhan.

Gall yr hawl a argymhellir i'r achwynydd gael gwrandawiad gael ei hategu gan gyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol annibynnol i helpu i hwyluso cyfranogiad yr achwynydd a helpu i ddiogelu hawliau preifatrwydd yr achwynydd.

**Rôl cynrychiolydd cyfreithiol yr achwynydd yn y treial**

Clywsom bryderon y byddai hawl i'r achwynydd gael gwrandawiad ac i gael cynrychiolaeth gyfreithiol yn ymyrryd â'r model treial gwrthwynebol deuaidd, ac y byddai'r diffynnydd i bob pwrpas yn cael ei orfodi i wynebu dau erlynydd yn hytrach nag un.

Fodd bynnag, yn ein barn ni, ni fyddai cwmpas ein hargymhelliad ar yr hawl i gael gwrandawiad a chynrychiolaeth gyfreithiol yn cael llawer o effaith ar natur ddeuaidd y treial. Dylai cynrychiolaeth gyfreithiol annibynnol i achwynwyr mewn achosion troseddau rhywiol gael ei chyfyngu i gynrychiolaeth yn y llys pan benderfynir ar geisiadau i dderbyn tystiolaeth o'u hymddygiad rhywiol a'u gorfodi i ddatgelu eu cofnodion personol, boed hynny cyn treial neu yn ystod treial yn absenoldeb y rheithgor. Mae cyfiawnhad dros hyn, gan fod y penderfyniadau yn ymwneud yn uniongyrchol â hawl yr achwynydd i breifatrwydd. O dan ein model, ni fyddai gan gynrychiolwyr cyfreithiol unrhyw rôl yn y treial ym mhresenoldeb y rheithgor, gan y byddai perygl i hyn danseilio'r model gwrthwynebol deuaidd.

**Costau ac arbedion effeithlonrwydd**

Gall yr hawl hon i'r achwynydd gael gwrandawiad arwain at gostau ac oedi. Er enghraifft, os gwnaed cais am dystiolaeth o ymddygiad rhywiol ar ôl i'r treial ddechrau, efallai y bydd hyn yn golygu bod angen gohirio'r treial nes bydd cyswllt wedi'i wneud â chynrychiolydd ar ran yr achwynydd a'i fod wedi cael cyfle i gyflwyno sylwadau. Mae prinder gweithwyr cyfreithiol proffesiynol i ymgymryd ag achosion troseddau rhywiol ar hyn o bryd hefyd, a allai waethygu pe bai angen mwy o gyfreithwyr a bargyfreithwyr ar gyfer achwynwyr.

Fodd bynnag, rydym o'r farn bod modd cyfiawnhau'r costau posibl ac y gallai'r arbedion effeithlonrwydd sy'n cael eu creu wrthbwyso'r costau hyn. Fel y dangoswyd gan gynllun peilot Cyngor Cyfreithiol Annibynnol yn Northumbria, gallai cyngor cyfreithiol annibynnol arwain at arbedion effeithlonrwydd yn ystod y broses ymchwilio, fel lleihau ceisiadau rhy eang a damcaniaethol am gofnodion personol achwynwyr.[15] Byddai'r gostyngiad mewn trawma yn sgil y broses cyfiawnder troseddol hefyd yn lleihau'r costau sy'n cael eu creu wrth i achwynwyr gael gafael ar gwnsela neu ofal iechyd therapiwtig arall ar ôl y treial, a'r costau

[15] O Smith, ac E Daly, Final Report: Evaluation of the Sexual Violence Complainants' Advocate Scheme, (Rhagfyr 2020).

sy'n gysylltiedig â chymryd amser o'r gwaith oherwydd salwch meddwl.

**Casgliad**

Credwn y gallai cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol annibynnol yn ystod camau cynnar achosion helpu i rymuso a hysbysu achwynwyr, gan helpu i adnabod a datrys materion yn ymwneud â chael mynediad at gofnodion personol yn gynnar a derbynioldeb tystiolaeth o ymddygiad rhywiol. Gallai cael mynediad at gyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol annibynnol hefyd wella hyder achwynwyr yn y broses cyfiawnder troseddol, gan leihau nifer yr achwynwyr sy’n tynnu eu cwyn yn ôl.

## Pwy ddylai ddarparu cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol annibynnol?

### Argymhelliad

Rydym yn argymell y dylid paru'r hawl i'r achwynydd gael gwrandawiad â mynediad at gyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol annibynnol.

Dim ond gweithwyr cyfreithiol proffesiynol cymwys ddylai ddarparu cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol annibynnol. Er mwyn galluogi cynghorwyr a chynrychiolwyr cyfreithiol i ddarparu cyngor a chynrychiolaeth effeithiol, dylid eu caniatáu i gael gafael ar ddogfennau angenrheidiol ac i gyfathrebu'n uniongyrchol â'r heddlu, yr erlyniad a'r amddiffyniad pan fo hynny'n briodol.

Byddai'n rhaid i'r cynghorydd neu'r cynrychiolydd cyfreithiol lynu wrth y rheolau sydd yn erbyn hyfforddi tystion, a defnyddio barn broffesiynol wrth drafod yr achos gyda'r achwynydd. Gallai'r cynghorydd neu'r cynrychiolydd cyfreithiol hefyd gael cydsyniad yr achwynydd i beidio â rhannu deunyddiau penodol â nhw lle byddai gormod o risg o halogi tystiolaeth yr achwynydd.

## Modelau cyngor a gwybodaeth gyfreithiol

Gallai cyngor cyfreithiol annibynnol gynnwys cymysgedd o gyngor ar-lein neu dros y ffôn, a chyngor a chymorth wyneb-yn-wyneb pan fo hynny'n angenrheidiol ac yn briodol. Dylai achwynwyr allu dewis pa fath o wybodaeth, cyngor neu gymorth maent yn dymuno ei ddefnyddio, gan ystyried eu gofynion hygyrchedd eu hunain ac anghenion eraill.

Efallai y bydd angen cyngor ar-lein neu dros y ffôn ar gyfer ymholiadau brys y gellir delio â nhw o bell. Efallai y bydd angen cyngor a chymorth wyneb-yn-wyneb i ymgysylltu â'r heddlu neu gael gafael ar ddogfennau ffisegol. Rydym hefyd yn argymell y dylid rhoi taflenni gwybodaeth gyfreithiol i achwynwyr, er mwyn iddynt allu cael gafael ar wybodaeth gyffredinol am eu hawliau a'r broses gyfreithiol. Mae angen digon o gyllid cyhoeddus ar gyfer y gwasanaethau cyfreithiol hyn i sicrhau y gall bod pob achwynydd yn gallu manteisio, ac y gellir sicrhau manteision cyflwyno cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol annibynnol.

`

# Apeliadau

## Y gyfraith bresennol

Ar hyn o bryd, mae'r gyfraith ond yn rhoi hawliau cyfyngedig i apelio mewn achosion troseddol. Gall yr erlyniad a'r amddiffyniad apelio yn erbyn dyfarniadau penodol a wneir yn ystod gwrandawiad paratoadol, os rhoddir caniatâd iddynt gan y llys. Math o wrandawiad cyn treial yw gwrandawiad paratoadol. Yn wahanol i wrandawiadau eraill cyn treial, dim ond mewn achosion twyll difrifol neu mewn achosion cymhleth, hir neu ddifrifol y gall barnwr orchymyn gwrandawiadau paratoadol i reoli achosion.[16]

Gall yr erlyniad hefyd apelio yn erbyn dyfarniad a wnaed unrhyw bryd cyn y treial, ac ar ôl i'r treial ddechrau, ar yr amod ei fod yn gwneud hyn cyn i'r barnwr ddechrau esbonio'r gyfraith a chrynhoi'r dystiolaeth i'r rheithgor.[17] Fodd bynnag, rhaid iddo gytuno i ryddfarnu'r diffynnydd os na cheir caniatâd i apelio neu os rhoddir y gorau i'r apêl. Ar ôl rheithfarn, os cafwyd y diffynnydd yn euog, gall apelio ar y sail bod yr euogfarn yn ansicr os bydd y llys yn rhoi caniatâd i apelio.

Ychydig iawn o hawliau apelio sydd gan drydydd partïon (sef partïon ar wahân i'r diffynnydd a'r erlyniad). Ar hyn o bryd, nid oes gan achwynwyr hawl i herio dyfarniadau a allai ymyrryd â'u hawl i breifatrwydd, fel y rhai sy'n ymwneud â thystiolaeth o ymddygiad rhywiol. Byddai hawl i apelio yn rhoi trosolwg pellach o ddyfarniadau barnwrol oherwydd, pe bai caniatâd i apelio yn cael ei roi, yna byddai'r dyfarniad yn cael ei adolygu gan y Llys Apêl. Byddai hyn yn annog penderfyniadau rhesymegol gwell gan farnwyr treialon.

## Hawl newydd i apelio ar gyfer achwynwyr

Byddai hawl gyfyngedig i achwynwyr apelio, yn enwedig mewn perthynas â phenderfyniadau a wneir mewn gwrandawiadau paratoadol ar dderbynioldeb tystiolaeth o ymddygiad rhywiol, yn ffordd iddynt herio penderfyniadau a allai effeithio'n sylweddol ar eu hawliau.

Er bod risg y byddai hawl achwynwyr i apelio yn arwain at oedi a chostau, gan gynnwys goblygiadau i adnoddau barnwrol, rydym o'r farn bod hawl apelio gyfyngedig, wedi'i chyfyngu i ddyfarniadau penodol a wneir mewn gwrandawiadau paratoadol, yn ddull gweithredu priodol a chymesur.

Mae dadleuon yn erbyn cyfyngu ar hawl achwynydd i apelio i benderfyniadau a wneir mewn gwrandawiadau paratoadol oherwydd:

1) gallai danseilio gwerth cyffredinol yr hawl i apelio, gan mai anaml y gwneir penderfyniadau ar dderbynioldeb tystiolaeth o ymddygiad rhywiol mewn gwrandawiadau paratoadol;

2) gellir ei ystyried yn gyfyngiad mympwyol, gan y gellir gwneud ceisiadau i dderbyn tystiolaeth o ymddygiad rhywiol ar adegau eraill yn ystod y treial.

Fodd bynnag, nid ydym yn argymell ehangu'r hawl i apelio y tu hwnt i wrandawiadau paratoadol, o ystyried y risg o oedi sylweddol a'r effaith bosibl ar y system cyfiawnder troseddol ehangach. Bydd ein gwaith parhaus ar apeliadau troseddol yn edrych ymhellach ar hawliau apelio trydydd parti.

[16] Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996, a 29.

[17] Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003, a 58.

Mae cynrychiolaeth gyfreithiol i'r achwynydd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ei gyfranogiad yn y broses yn wybodus ac yn effeithiol. Byddai presenoldeb cynrychiolaeth gyfreithiol hefyd yn cyfrannu at ansawdd a chysondeb y broses o wneud penderfyniadau barnwrol a datblygu cyfraith achosion gydlynol yn y maes hwn.

### Argymhelliad

Rydym yn argymell y dylai achwynwyr gael hawl i apelio yn erbyn dyfarniad a wneir mewn gwrandawiad paratoadol ar dderbynioldeb tystiolaeth o ymddygiad rhywiol achwynydd. Rydym hefyd yn argymell bod achwynwyr yn cael cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol annibynnol mewn cysylltiad ag unrhyw hawl o'r fath i apelio.

`

# Mesurau i helpu i roi tystiolaeth

Mewn achosion troseddau rhywiol, bydd yr achwynydd yn aml yn rhoi tystiolaeth yn y treial fel prif dyst yr erlyniad. Pan fydd yn gwneud hynny, bydd yr achwynydd yn gymwys i wneud cais i ddefnyddio mesurau i helpu i roi tystiolaeth fel tyst “dan fygythiad” o dan Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999. Gall hyn gynnwys rhoi tystiolaeth yn y llys y tu ôl i sgrin, neu drwy ddolen fideo fyw. Nod y mesurau hyn yw gwella ansawdd tystiolaeth y tyst a diogelu rhag triniaeth annynol drwy sicrhau nad yw’n destun trallod neu drawma anghymesur.

Gelwir y mesurau hyn ar hyn o bryd yn “fesurau arbennig”. Fodd bynnag, gall y term hwn fod â chysylltiadau negyddol i rai pobl ac efallai y bydd yn atal tystion rhag gwneud cais amdanynt. Felly, rydym yn argymell y dylid defnyddio'r term “mesurau i helpu i roi tystiolaeth” yn lle'r term “mesurau arbennig”. Mae'r term mwy niwtral hwn yn osgoi cysylltiadau negyddol y derminoleg bresennol, ac mae’n gliriach ynghylch pwrpas a defnydd y mesurau hyn.

### Y gyfraith gyfredol

Ar hyn o bryd, mae achwynwyr mewn erlyniadau troseddau rhywiol yn cael eu categoreiddio fel tystion “dan fygythiad” sy’n ofni neu’n poeni am roi tystiolaeth. Rhaid i'r erlyniad wneud cais i gael defnyddio mesurau a rhaid dangos i'r barnwr y byddai'r mesur y gofynnwyd amdano yn gwella ansawdd tystiolaeth yr achwynydd.

Rydym yn ystyried a ddylid newid y system bresennol fel y byddai gan achwynwyr mewn achosion troseddau rhywiol hawl awtomatig i ddefnyddio mesurau penodol i'w helpu i roi tystiolaeth (fel defnyddio sgrin, dolen fyw, neu dystiolaeth wedi'i recordio ymlaen llaw) heb fod angen egluro pam mae eu hangen arnynt. Gelwir y model hwn yn fodel hawliau.

### Mesurau safonol ar gyfer rhoi tystiolaeth

Mae'r system bresennol yn aml yn ei gwneud yn ofynnol i achwynwyr egluro pam mae angen cymorth arnynt, sy'n gallu bod yn ymwthiol ac achosi straen. Gan fod y rhan fwyaf o geisiadau am fesurau yn cael eu caniatáu, mae'r gofyniad hwn yn ddiangen. Mae'r model hawliau yn adlewyrchu'n well y rhesymau dros fodolaeth y mesurau hyn: helpu achwynwyr i roi eu tystiolaeth orau a'u trin ag urddas. Mae hefyd yn cydnabod bod achwynwyr yn aml yn agored i niwed oherwydd natur y drosedd yn unig, nid oherwydd nodweddion personol.

### Argymhelliad

Rydym yn argymell model hawliau newydd ar gyfer achwynwyr mewn achosion troseddau rhywiol, lle gallant ddefnyddio mesurau safonol i'w helpu i roi tystiolaeth, heb orfod profi y bydd hyn yn gwella ansawdd eu tystiolaeth.

Fodd bynnag, mae dau gyfyngiad pwysig: rhaid i bob mesur perthnasol fod ar gael yn y llys, a rhaid i'r mesurau a ddewisir beidio ag atal yr amddiffyniad rhag gallu profi'r dystiolaeth yn effeithiol.

Ategir y model rydym yn ei argymell gan argymhellion allweddol eraill, gan gynnwys sicrhau bod achwynwyr yn gallu cael gafael ar gyngor cyfreithiol annibynnol, a rhoi hyfforddiant ar y mesurau hyn i farnwyr a chyfreithwyr. Bydd y newidiadau hyn yn helpu achwynwyr i wneud dewisiadau gwybodus, yn gwella cysondeb ar draws achosion, ac yn rhoi mwy o reolaeth iddynt dros eu cyfranogiad yn y treial. Yn y cyfamser, mae'r cyfyngiadau rydym yn eu hawgrymu mewn perthynas â'r hawl yn hanfodol i amddiffyn hawl y diffynnydd i dreial teg ac i sicrhau bod y dull newydd yn ymarferol.

Dyma'r mesurau rydym yn argymell eu cynnwys yn y model hawliau:

| | |
|---|---|
| **Sgriniau** | Mae'r achwynydd yn rhoi tystiolaeth y tu ôl i sgrin fel ei fod yn cael ei warchod rhag gweld y diffynnydd. |
| **Dolen Fyw** | Mae'r achwynydd yn rhoi tystiolaeth yn fyw o'r tu allan i ystafell y llys drwy ddolen fideo, naill ai o ystafell arall yn adeilad y llys neu o leoliad addas arall. |
| **Tystiolaeth wedi'i recordio ymlaen llaw** | Mae'r achwynydd yn rhoi tystiolaeth cyn y treial, sy'n cael ei recordio ac yna'n cael ei chwarae i'r rheithgor yn ystod y treial. Ni fyddai hyn yn dibynnu ar a oes cyfweliad Sicrhau'r Dystiolaeth Orau derbyniol wedi'i recordio ar fideo i gael y dystiolaeth flaenaf. Pan nad oes cyfweliad Sicrhau'r Dystiolaeth Orau derbyniol, dylai bod cyfle i recordio'r dystiolaeth flaenaf ymlaen llaw mewn gwrandawiad ar wahân a gynhelir gan yr erlyniad. |
| **Presenoldeb cefnogwr** | Mae cefnogwr (fel Cynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol) yn dod gyda'r achwynydd tra bydd yn rhoi ei dystiolaeth. |
| **Eithrio'r cyhoedd** | Caiff y cyhoedd eu gwahardd o'r llys pan fydd tystiolaeth yr achwynydd yn cael ei chyflwyno. Mae gan y barnwr ddisgresiwn ynghylch pwy sy'n cael ei wahardd, ond efallai y bydd y bobl ganlynol yn cael aros: y rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r achos (fel y diffynnydd a chynrychiolwyr cyfreithiol); pob aelod dilys o'r wasg; ymchwilwyr academaidd gyda chymeradwyaeth foesegol gan bwyllgor moeseg ymchwil prifysgol; cefnogwr yr achwynydd (os gofynnir amdano); ac unrhyw un arall y mae'r barnwr yn ei ganiatáu er budd cyfiawnder. |
| **Tynnu wigiau a gynau** | Mae barnwyr a bargyfreithwyr yn y llys yn tynnu'r dillad llys traddodiadol wrth i'r achwynydd roi tystiolaeth. |
| **Mynedfeydd ac ystafelloedd aros ar wahân a hygyrch** | Gall yr achwynydd ddefnyddio mynedfa hygyrch ac ystafell aros sydd ar wahân i aelodau'r cyhoedd a'r diffynnydd. |

`

## Cyngor cyfreithiol annibynnol

Rydym yn argymell y dylai achwynwyr allu cael cyngor cyfreithiol annibynnol am y mesurau arbennig sydd ar gael iddynt. Byddai hyn yn sicrhau bod achwynwyr yn cael canllawiau clir wedi'u teilwra ynghylch y mesurau sydd ar gael gan rywun nad yw'n rhan o'r heddlu neu'r erlyniad. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am hawliau'r achwynydd, effeithiau ymarferol pob mesur, a sut i wneud penderfyniadau gwybodus am roi tystiolaeth. Byddai hefyd yn gwella trefniadau cynnar mesurau, yn lleihau'r risg o drallod neu ymddieithrio gan achwynwyr, ac yn helpu i sicrhau bod anghenion a dewisiadau'r achwynydd yn cael eu hystyried a'u parchu'n briodol drwy gydol y broses.

## Mesurau i ddiffynyddion sy'n rhoi tystiolaeth

Rydym hefyd yn ystyried a ddylid cael darpariaethau penodol neu wahanol ar gyfer mesurau i helpu diffynyddion mewn erlyniadau troseddau rhywiol i roi tystiolaeth, y tu hwnt i'r darpariaethau sydd ar gael ar hyn o bryd i bob diffynnydd agored i niwed.

Clywsom y gallai fod angen darparu mesurau'n well ar gyfer pob diffynnydd, yn enwedig y rheini sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, ni chawsom dystiolaeth bod gan ddiffynyddion mewn achosion troseddau rhywiol anghenion penodol sy'n cyfiawnhau trefn ar wahân. Gallai creu mesurau sy'n benodol i droseddau ar gyfer diffynyddion arwain at hierarchaeth cymorth heb gyfiawnhad ac ni fyddai'n adlewyrchu egwyddorion ehangach tegwch a chydraddoldeb gerbron y gyfraith.

Rydym yn cydnabod bod y fframwaith presennol ar gyfer cefnogi diffynyddion, yn enwedig rhai agored i niwed, yn dameidiog ac nad yw wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Nid yw mesurau ar gael yn gyson ac nid ydynt wedi'u nodi'n glir mewn statud. Felly, rydym yn argymell bod y Llywodraeth yn cynnal adolygiad ehangach o'r mesurau sydd ar gael i bob diffynnydd er mwyn sicrhau eu bod yn gallu rhoi eu tystiolaeth orau a chymryd rhan effeithiol yn y treial. Dylai'r adolygiad hwn ystyried ffurfioli ac ehangu'r cymorth sydd ar gael, gan ystyried rôl a hawliau penodol y diffynnydd yn y broses cyfiawnder troseddol.

# Rheithgorau

Mewn treialon troseddau rhywiol, rhoddir y dasg o benderfynu a yw'r diffynnydd yn euog i reithgorau. Mae dylanwad mythau a chamsyniadau ar drafodaethau rheithwyr yn cael ei herio, ond mae'r sylfaen dystiolaeth drwyddi draw'n awgrymu bod mythau a chamsyniadau'n effeithio rhywfaint ar resymu rheithwyr.[18] Rydym felly'n ystyried sut dylid cyfleu gwybodaeth i reithwyr yn ystod treialon troseddau rhywiol er mwyn sicrhau eu bod yn gwerthuso'r dystiolaeth sydd ger eu bron yn deg heb ddylanwad mythau a chamsyniadau. Rydym yn ystyried dau brif ddull o addysgu rheithwyr: cyfarwyddydau barnwrol ar fythau a chamsyniadau, a thystiolaeth arbenigol o ymatebion ymddygiadol cyffredinol i droseddu rhywiol.

Rydym hefyd yn gwerthuso a ddylid cael eithriad statudol ar gyfer ymchwilwyr a chyfranogwyr y rheithgor mewn ymchwil o'r fath o'r trosedd presennol sy’n gwahardd datgelu gwybodaeth am drafodaethau rheithwyr er mwyn gallu ymchwilio i gynnwys trafodaethau rheithwyr go iawn.[19]

## Rhoi cyfarwyddydau i'r rheithgor

Cyfarwyddydau barnwrol yw'r prif ddull a ddefnyddir i roi gwybod i reithwyr am fythau a chamsyniadau ynghylch treisio. Mae'r cyfarwyddydau hyn yn ddewisol, sy'n golygu y gall barnwyr ddewis a ydynt am eu rhoi ai peidio, ac anogir barnwyr i'w teilwra i ffeithiau pob achos. Fodd bynnag, mynegodd rhanddeiliaid bryderon ynghylch anghysondeb y cynnwys a pha mor aml y rhoddir cyfarwyddydau o'r fath.

Er mwyn mynd i'r afael â'r anghysondeb hwn, roeddem wedi ymgynghori ynghylch a ellid gwneud mwy i sicrhau bod cyfarwyddydau'n cael eu rhoi pan fyddent yn fuddiol. O ystyried y dystiolaeth sydd ar gael, rydym o'r farn y gellid rhoi cyfarwyddydau'n fwy cyson nag y maent yn cael eu rhoi ar hyn o bryd ac y dylai'r Coleg Barnwrol[20] ystyried darparu canllawiau o ran pryd i roi cyfarwyddydau sy'n ymwneud â mythau a chamsyniadau.

### Argymhelliad

Rydym yn argymell y dylai'r Coleg Barnwrol ystyried datblygu canllawiau i farnwyr ynghylch rhoi cyfarwyddydau ar fythau a chamsyniadau, ac y dylid rhoi cyfarwyddydau dan yr amgylchiadau hyn:

1. pan fydd tystiolaeth yn cael ei harwain gan y myth neu'r camsyniad;
2. pan fydd cwestiynau'n cael eu gofyn am y myth neu'r camsyniad;
3. pan fydd datganiad yn cael ei wneud sy'n ymwneud â myth neu gamsyniad;
4. pan fydd cais yn cael ei wneud am gyfarwyddyd gan y partïon;
5. pan fydd barnwr o'r farn y gallai fod angen cyfarwyddyd,

oni bai, o dan amgylchiadau'r achos, na fyddai unrhyw reithgor rhesymol yn ystyried bod y dystiolaeth, y cwestiwn neu'r datganiad yn berthnasol.

## Cyfarwyddydau enghreifftiol

Mae Compendiwm Llys y Goron yn cynnwys amrywiaeth o gyfarwyddydau enghreifftiol sydd wedi'u llunio i fynd i'r afael â mythau a chamsyniadau am droseddu rhywiol.[21] Bydd barnwyr yn aml yn defnyddio'r cyfarwyddydau enghreifftiol hyn fel templed a byddant yn

[18] Gweler y drafodaeth yn P 1 {paragraff 1.5}.
[19] Deddf Rheithgorau 1974, s 20D.
[20] Yr Arglwydd neu'r Arglwyddes Brif Ustus sy'n gyfrifol am drefniadau hyfforddi barnwriaeth y llysoedd yng Nghymru a Lloegr o dan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005. Y Coleg Barnwrol sy'n gweithredu'r cyfrifoldeb hwn, gan gynnwys datblygu Compendiwm Llys y Goron. Gweler Llysoedd a Thribiwnlysoedd, y Coleg Barnwrol.
[21] Y Coleg Barnwrol, *The Crown Court Compendium – Part 1: Jury and Trial Management and Summing Up* (Diweddariad Ebrill 2025).

`

teilwra'r cyfarwyddyd a roddir i'r rheithgor o ran ffeithiau'r achos.

Isod, mae ein hargymhellion i'r Coleg Barnwrol ar gyfer ystyried diwygio rhai o'r cyfarwyddydau enghreifftiol presennol fel eu bod yn adlewyrchu'n gywir y dystiolaeth empirig sydd ar gael. Rydym hefyd yn argymell bod y Coleg Barnwrol yn ystyried cyfarwyddydau newydd sy'n ymwneud â mythau neu gamsyniadau gan nad ydynt yn cael sylw yng Nghompendiwm Llys y Goron ar hyn o bryd.

| **Diwygiadau i gyfarwyddydau enghreifftiol presennol** |
|---|
| Dylid diwygio'r cyfarwyddyd enghreifftiol ar “osgoi rhagdybiaethau am dreisio a throseddau rhywiol eraill” i egluro i'r rheithgor bod yn rhaid iddynt osgoi tybiaethau bod “treisiwr nodweddiadol neu berson nodweddiadol sy'n cael ei dreisio” (dylai hyn adlewyrchu'r cyfarwyddyd a gymeradwywyd yn *Andreous* [2014] EWCA Crim 2886, [2014] 11 WLUK 279 yn [23]). |
| Dylid diwygio'r cyfarwyddyd enghreifftiol ar “ofn, er nad oedd defnydd neu fygythiad o rym, brwydr gorfforol a/neu anaf” i gyfeirio at yr amrywiaeth o ymatebion cyffredin i droseddau rhywiol, gan gynnwys rhewi, cyfeillio, ffoi, ymladd a methu. |
| Dylid diwygio'r cyfarwyddyd enghreifftiol ar “gefndir cam-drin domestig” i gyfeirio at ymateb cyffredin dioddefwr cam-drin domestig, sef cymryd camau i dawelu'r sawl sy'n cam-drin. |
| Dylid diwygio'r cyfarwyddydau enghreifftiol presennol ar roi tystiolaeth gan ddefnyddio mesurau arbennig i egluro na ddylai'r rheithgor ddod i unrhyw gasgliadau o benderfyniad achwynydd i wylio gweddill y treial ar ôl defnyddio mesurau arbennig i roi tystiolaeth. |
| **Cyfarwyddydau enghreifftiol newydd** |
| Dylid cyflwyno cyfarwyddyd enghreifftiol i ymateb i'r myth y bydd achwynydd gwrywaidd yn gwneud honiadau ffug am droseddu rhywiol oherwydd cywilydd neu ofn o ddial mewn cysylltiad â gweithgarwch rhywiol cyfunrywiol cydsyniol |
| Dylid cyflwyno cyfarwyddyd enghreifftiol ar gamsyniadau am achwynwyr a diffynyddion sydd â chyflwr iechyd meddwl, sydd ag anabledd dysgu, neu sy'n niwroamrywiol |
| Dylid cyflwyno cyfarwyddyd enghreifftiol sy'n egluro CICE a'r cynllun CIC |
| Dylid cyflwyno cyfarwyddyd enghreifftiol ar dystiolaeth o honiad ffug i ymateb i gamsyniadau ynghylch pa mor gyffredin yw honiadau ffug. |
| Dylid cyflwyno cyfarwyddyd enghreifftiol ar dystiolaeth o ymddygiad rhywiol |
| Dylid cyflwyno cyfarwyddyd enghreifftiol yn ymateb i'r camsyniad bod rhai grwpiau o bobl yn fwy anllad yn rhywiol ac felly'n llai teilwng o gael eu credu a/neu'n fwy tebygol o fod wedi cydsynio. |
| Dylid cyflwyno cyfarwyddyd enghreifftiol ar y camsyniad na fyddai dioddefwyr trosedd rhywiol yn parhau i fod mewn cysylltiad â'r sawl a'u treisiodd. |

## Tystiolaeth arbenigol

Gellir derbyn tystiolaeth arbenigol i helpu'r barnwr a'r rheithgor i ddeall amrywiaeth o bynciau gwahanol. Mae'r llysoedd wedi penderfynu nad yw tystiolaeth arbenigol yn dderbyniol oni bai fod angen darparu gwybodaeth ddefnyddiol sy'n debygol o fod y tu hwnt i wybodaeth a phrofiad y barnwr neu'r rheithgor.

O dan y fframwaith cyfreithiol presennol, mae barn arbenigol yn dderbyniol os yw'n berthnasol, yn angenrheidiol, yn ddibynadwy, ac yn cael ei darparu gan unigolyn sydd â chymwysterau addas. Fodd bynnag, yn hanesyddol, mae'r llysoedd wedi mabwysiadu dull cyfyngol o ymdrin â derbynioldeb tystiolaeth gyffredinol ar ymddygiad, gan ffafrio cyfarwyddydau barnwrol fel y brif ffordd o arwain rheithgorau.

Rydym o'r farn bod y dull hwn yn rhy gul. Gall rheithwyr fod â chamsyniadau ynghylch sut disgwylir i achwynwyr ymddwyn yn ystod neu ar ôl trais rhywiol, a gall hyn ystumio'r ffordd maent yn gwerthuso tystiolaeth. Mae gan dystiolaeth arbenigol gyffredinol y potensial i chwalu mythau o'r fath drwy wella dealltwriaeth rheithwyr o'r ymatebion amrywiol ac weithiau gwrth-reddfol i drawma, gan gynnwys oedi cyn riportio, datgysylltu, neu barhau mewn cyswllt â'r cyflawnwr. Mewn achosion cymhleth, fel y rhai sy'n ymwneud â cham-drin parhaus o fewn y teulu, ystyriaethau diwylliannol, neu fasnachu pobl, efallai na fydd cyfarwyddydau barnwrol ar eu pen eu hunain yn ddigon i gyfleu'r wybodaeth angenrheidiol.

Byddai'r dystiolaeth dan sylw yn gyffredinol ei natur ac ni fyddai'n mynd i'r afael â hygrededd unrhyw achwynydd unigol. Mae hyn yn bwysig i leihau pryderon y gallai tystiolaeth o'r fath roi hwb amhriodol i hygrededd achwynwyr neu ymyrryd â rôl werthusol y rheithgor.

Pwrpas y dystiolaeth arbenigol hon fyddai rhoi fframwaith tystiolaethol ehangach i reithwyr ar gyfer asesu ffeithiau'r achos. Byddai goruchwyliaeth farnwrol yn sicrhau bod y dystiolaeth yn aros o fewn y terfynau priodol, a byddai'r amddiffyniad yn cadw'r hawl i herio derbynioldeb y dystiolaeth, croesholi'r arbenigwr, neu alw am dystiolaeth i wrthbrofi lle bo hynny'n briodol.

Nid ydym yn credu bod risg annerbyniol y bydd y math hwn o dystiolaeth arbenigol yn arwain at "frwydr rhwng yr arbenigwyr" neu greu fframwaith normadol newydd yn anfwriadol ar gyfer ymddygiad dioddefwyr. Mae consensws eang ymysg arbenigwyr ynghylch ymatebion amrywiol dioddefwyr, ac yn ymarferol, gellid cyflwyno tystiolaeth o'r fath yn aml drwy ffeithiau y cytunwyd arnynt neu adroddiadau ar y cyd. Nid pennu sut dylai dioddefwyr ymddwyn yw'r amcan, ond yn hytrach herio'r dybiaeth bod ymateb nodweddiadol neu ddisgwyliedig i drais rhywiol.

Yn olaf, gall tystiolaeth arbenigol arwain at oblygiadau o ran adnoddau ac at oedi. Fodd bynnag, gellid mynd i'r afael â hyn drwy ddefnyddio tystiolaeth arbenigol y cytunwyd arni, a fydd yn lleihau'r posibilrwydd o oedi gan na fyddai angen amser i groesholi dau arbenigwr gwrthwynebol. Ar ben hynny, mae ein hargymhelliad ar gyfer tystiolaeth arbenigol yn cyfyngu ar dderbynioldeb tystiolaeth arbenigol mewn achosion cymhleth, sy'n golygu na fyddai tystiolaeth arbenigol yn cael ei defnyddio ym mhob achos troseddau rhywiol (neu yn wir, y rhan fwyaf ohonynt).

### Argymhelliad

Rydym yn argymell y dylai tystiolaeth arbenigol o ymatebion ymddygiadol cyffredinol i drais rhywiol fod yn dderbyniol i fynd i'r afael â mythau a chamsyniadau mewn treialon troseddau rhywiol arbennig o gymhleth lle bo angen oherwydd:

1) bod y dystiolaeth wedi'i chyfeirio at rywbeth sydd y tu hwnt i wybodaeth a phrofiad y rheithgor;
2) ni fyddai mathau eraill o addysg i reithwyr, gan gynnwys cyfarwyddydau barnwrol, yn rhoi digon o gymorth i'r rheithgor.

`

## Ymchwil rheithgor

Ar hyn o bryd, mae adran 20D o Ddeddf Rheithgorau 1974 yn gwahardd datgelu neu geisio gwybodaeth am drafodaethau rheithgorau. Er bod y ddarpariaeth hon yn diogelu cyfrinachedd trafodaethau’r rheithgor, mae hefyd yn cyfyngu'n sylweddol ar gwmpas ymchwil empirig i sut mae rheithgorau'n gwneud eu penderfyniadau. Mae'r rhan fwyaf o'r ymchwil gyfredol yn y maes hwn yn cael ei gwneud gan ddefnyddio ffug reithgorau, nad ydynt, er eu bod yn werthfawr, yn gallu efelychu deinameg trafodaethau go iawn rheithgorau.

Gallai ymchwil sy'n cynnwys rheithwyr go iawn lenwi bylchau hollbwysig yn y sylfaen dystiolaeth ynghylch sut gallai mythau a chamsyniadau ddylanwadu ar resymu rheithwyr. Pan gynhelir ymchwil gyda rheithwyr go iawn, mae'n bwysig caniatáu mynediad i ystod eang ac amrywiol o ymchwilwyr, gan gynnwys rhai o ddisgyblaethau cymdeithasol-gyfreithiol, seicolegol a throseddegol.

Yn ein barn ni, byddai rhagor o ymchwil gyda rheithwyr go iawn yn gwella ein dealltwriaeth o ymddygiad rheithgorau ac yn gwella'r gefnogaeth a ddarperir iddynt. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod yr heriau methodolegol a moesegol cysylltiedig. Er enghraifft, clywsom y gallai ymchwil o'r fath danseilio hyder y cyhoedd yn y system reithgor. Rydym o'r farn y byddai mwy o dryloywder a diwygio ar sail tystiolaeth, mewn gwirionedd, yn cryfhau hyder wrth weinyddu cyfiawnder.

Rydym yn cydnabod pryderon am effaith bosibl ymchwil ar degwch treialon, a'r risg gysylltiedig o fwy o apeliadau. Fodd bynnag, credwn y gellir lliniaru'r risgiau hyn drwy broses gymeradwyo sy'n ystyried natur a pha mor ymwthiol yw’r ymchwil arfaethedig. Dylai amodau gael eu gosod fesul achos gan y corff sy'n gyfrifol am gymeradwyo ymchwil.

## Argymhelliad

Rydym yn argymell cynnal rhagor o ymchwil sy'n cynnwys rheithwyr go iawn. Rydym yn argymell creu eithriad statudol i adran 20D o Ddeddf Rheithgorau 1974 er mwyn caniatáu ar gyfer ymchwil o'r fath.

# Ymddygiad achosion troseddau rhywiol

Mae eiriolwr yn berson sydd â chymwysterau proffesiynol i gynghori a chynrychioli person arall yn y llys. Mae rôl eiriolwr mewn treial troseddol yn cynnwys cyflwyno ei achos i'r rheithgor. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno tystiolaeth, holi tystion a rhoi areithiau agoriadol a chloi. Mewn treialon troseddau rhywiol, gall y ffordd y mae eiriolwr yn cyflawni'r rôl hon effeithio’n sylweddol ar brofiad yr achwynydd a'r risg y bydd mythau neu gamsyniadau'n cael eu cyflwyno i'r rheithgor.

## Dibyniaeth ar fythau a chamsyniadau

Gall eiriolwyr gyflwyno mythau a chamsyniadau am droseddau rhywiol yn anfwriadol neu'n fwriadol yn ystod treialon, yn enwedig drwy gwestiynau ac areithiau. Mae hyn yn digwydd er gwaethaf rhwymedigaethau proffesiynol presennol a rheolau tystiolaeth, fel y gofyniad bod yn rhaid i dystiolaeth fod yn berthnasol. Er bod llawer o eiriolwyr yn dangos sensitifrwydd a thegwch mewn achosion troseddau rhywiol, mae tystiolaeth yn awgrymu bod mythau yn dal i gael eu cyflwyno mewn achosion troseddau rhywiol ac y gallent, o ganlyniad, ddylanwadu ar reithwyr.[22]

Yn ein barn ni, dylai'r diwygiadau i fynd i'r afael â'r mater hwn ganolbwyntio ar sicrhau mai dim ond tystiolaeth berthnasol sy'n cael ei chyflwyno mewn treialon troseddau rhywiol. Isod, rydym yn egluro sut gellir gwneud gwelliannau drwy hyfforddi ymarferwyr cyfreithiol, darparu canllawiau barnwrol ac offer rheoli achosion i wahaniaethu'n well rhwng cwestiynau derbyniol ac annerbyniol, a mynd i'r afael â dibyniaeth ar fythau neu gamsyniadau.

## Rôl y partïon

Mewn achosion troseddau rhywiol, mae gan yr erlyniad a'r amddiffyniad rolau hollbwysig o ran sicrhau treialon teg ar yr un pryd ag atal mythau a chamsyniadau rhag cael eu cyflwyno. Rhaid i bob bargyfreithiwr sicrhau ei fod yn glynu wrth rwymedigaethau proffesiynol o dan God Ymddygiad Bwrdd Safonau'r Bar.

Rhaid i erlynwyr nodi ac ymateb yn ofalus i fythau a chamsyniadau, o fewn eu dadleuon eu hunain, a phan gânt eu cyflwyno gan eiriolwyr amddiffyn. Ategir rôl yr erlyniad gan ganllawiau sefydledig ar gyfer erlynwyr.[23]

Mae eiriolwyr yr amddiffyniad yn profi achos yr erlyniad ac yn cyflwyno dadleuon ar ran y diffynnydd. Mae hyn yn cynnwys croesholi tystion dros yr erlyniad a gwneud areithiau cloi. Wrth gynnal eu hachos, rhaid i fargyfreithwyr yr amddiffyniad beidio â chamarwain y llys na sarhau, bychanu na chythruddo tyst nac unrhyw berson arall.[24] Dylai'r holl fargyfreithwyr fod yn gyfarwydd â'r rhwymedigaethau hyn a glynu'n ofalus wrthynt. Mae hyn yn bwysig ym mhob treial, gan gynnwys erlyniadau troseddau rhywiol lle gallai dull bargyfreithiwr o groesholi neu gyflwyno achos gyflwyno mythau a chamsyniadau i'r rheithgor.



[22] Gweler Evidence in sexual offences prosecutions: a final report (2025) Comisiwn y Gyfraith Rhif 420, paragraffau 11.8-11.14.
[23] Gweler Gwasanaeth Erlyn y Goron, *Legal Guidance, Rape and Sexual Offences, Chapter 4, Tackling Rape Myths and Stereotypes, Annex A* (21 Mai 2021); Gwasanaeth Erlyn y Goron, *Victims and Witnesses: CPS Public Policy Statement on the Delivery of Services to Victims - The Prosecutors' Pledge*, (23 Ionawr 2018).
[24] Bwrdd Safonau'r Bar, Llawlyfr *BSB*, (Rhagfyr 2020), Rhan 2, Cod Ymddygiad, C1, RC3, RC6.

`

## Rôl y barnwr

Prif gyfrifoldeb y llys mewn erlyniadau troseddau rhywiol yw sicrhau bod achosion yn cael eu trin yn gyfiawn.[25] Disgwylir i farnwyr ddefnyddio eu pwerau rheoli achosion yn rhagweithiol i gynnal tegwch, atal cyflwyno deunydd amherthnasol neu niweidiol, ac ymateb yn briodol pan fydd mythau neu gamsyniadau'n codi. Mae hyn yn cynnwys nodi materion dadleuol yn gynnar, gan arwain perthnasedd y cwestiynau arfaethedig, ac ymyrryd pan fo angen. Mae'r farnwriaeth wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran gwella'r ffordd y mae'n ymdrin â'r achosion hyn, gan gynnwys mynnu hyfforddiant arbenigol i farnwyr sy'n llywyddu dros dreialon troseddau rhywiol difrifol. Mae Compendiwn Llys y Goron hefyd yn darparu arweiniad a chyfarwyddydau enghreifftiol i helpu barnwyr i fynd i'r afael â mythau a chamsyniadau'n effeithiol.

Er nad ydym yn argymell bod pob math o gwestiynau'n gorfod cael eu cymeradwyo ymlaen llaw, anogir barnwyr i ddefnyddio mecanweithiau ac ymyriadau cyn-treial, lle bo angen, i sicrhau mai dim ond tystiolaeth a chwestiynau perthnasol sy'n cael eu cyflwyno yn ystod treialon troseddau rhywiol.

## Ein hargymhellion

Mae ein hargymhellion wedi'u targedu at fynd i'r afael â'r risg y bydd mythau a chamsyniadau'n cael eu cyflwyno drwy gwestiynau ac areithiau mewn treialon troseddau rhywiol.

**Hyfforddiant gorfodol ar fythau a chamsyniadau**

Gallai hyfforddiant gorfodol ar gyfer ymarferwyr cyfreithiol sy'n gweithio mewn achosion troseddau rhywiol wella gwybodaeth, herio rhagdybiaethau sydd eisoes yn bodoli, a hyrwyddo cysondeb ar draws y proffesiwn.

Byddai'r hyfforddiant hwn yn rhoi i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio i'r erlyniad a'r amddiffyniad, yr wybodaeth a'r sgiliau i nodi ac osgoi dibyniaeth ar stereoteipiau niweidiol sy'n gallu dylanwadu ar reithgorau a thanseilio tegwch treialon. Er bod rhai ymarferwyr, gan gynnwys y rhai sy'n gweithredu ar ran yr erlyniad, eisoes yn cael hyfforddiant o'r fath, ar hyn o bryd nid oes gofyniad hyfforddi ffurfiol ar gyfer twrneiod yr amddiffyniad na llawer o fargyfreithwyr sy'n gweithredu ar ran yr amddiffyniad yn unig.

### Argymhelliad

Rydym yn argymell ei bod yn ofynnol i bob ymarferydd cyfreithiol sy'n ymwneud ag achosion troseddau rhywiol ymgymryd â hyfforddiant ar fythau a chamsyniadau.

Bwriad ein hargymhelliad yw sicrhau bod yr holl weithwyr cyfreithiol proffesiynol ar achosion troseddau rhywiol wedi'u paratoi'n ddigonol, heb roi gormod o faich gweinyddol nac ariannol ar ymarferwyr.

**Canlyniadau camymddwyn proffesiynol**

Gallai penderfyniad bargyfreithiwr i ddiystyru cyfarwyddyd clir gan farnwr olygu ei fod yn torri ei ddyletswyddau o dan God Ymddygiad Bwrdd Safonau'r Bar.[26] Gallai diwygiadau i'r cod helpu i egluro bod bargyfreithwyr sy'n defnyddio mythau am dreisio neu gyffredinoli amhriodol yn fwriadol yn ystod treialon troseddau rhywiol mewn perygl o wynebu canlyniadau camymddwyn proffesiynol. Byddai'r diwygiad hwn yn ei gwneud yn glir nad yw dibyniaeth o'r fath yn gydnaws â dyletswydd bargyfreithiwr i weithredu'n onest, yn ddidwyll, ac er budd cyfiawnder.[27]

[25] CrimPR, r 1.1 a 1.3.
[26] Gallai hyn gynnwys torri'r dyletswyddau canlynol: Dyletswydd Graidd 1 - Rhaid i chi gadw at eich dyletswydd i'r llys wrth weinyddu cyfiawnder; Dyletswydd Graidd 3 - Rhaid i chi weithredu'n onest ac yn ddidwyll (didwylledd yn unig); a/neu Ddyletswydd Graidd 5 - Rhaid i chi beidio ag ymddwyn mewn ffordd sy'n debygol o leihau ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd ynoch chi neu yn y proffesiwn. Bwrdd Safonau'r Bar, *Llawlyfr BSB*, (Rhagfyr 2020), Rhan 2, Cod Ymddygiad.
[27] Bwrdd Safonau'r Bar, Llawlyfr *BSB*, (Rhagfyr 2020), Rhan 2, Cod Ymddygiad, CD1, CD3 a rC6.

Rydym yn dod i'r casgliad y byddai'n werthfawr cryfhau'r fframwaith rheoleiddio i atal ymddygiad a allai gamarwain y llys ac amharu ar degwch treialon. Credwn y byddai diwygiadau i'r Cod Ymddygiad yn gwella tryloywder, atebolrwydd a hyder y cyhoedd yn y system gyfreithiol. Byddent hefyd yn cefnogi Bwrdd Safonau'r Bar i orfodi safonau proffesiynol yn fwy effeithiol. Yn anad dim, ni fyddai'r newidiadau wedi'u bwriadu i gosbi dibyniaeth anfwriadol ar fythau neu gamsyniadau, a dylid mynd i'r afael â nhw yn lle hynny gan ddefnyddio offer rheoli achosion barnwrol fel cyfarwyddydau neu ymyriadau eraill.

Ni ddylai'r diwygiadau i'r Cod atal bargyfreithwyr rhag mynd ar drywydd dadleuon dilys oherwydd eu bod yn ofni camau disgyblu. Y rheswm dros hyn yw bod y diwygiadau rydym yn eu hargymell wedi'u hanelu at fynd i'r afael ag ymddygiad bwriadol a dylent gynnwys canllawiau clir i helpu bargyfreithwyr i wahaniaethu rhwng eiriolaeth a ganiateir a chyffredinoli gwaharddedig.

### Argymhelliad

Rydym yn argymell bod Bwrdd Safonau'r Bar yn ystyried diwygio ei God Ymddygiad i egluro y gallai bargyfreithwyr sy'n dibynnu'n fwriadol ar fythau a chamsyniadau mewn erlyniadau troseddau rhywiol fod yn torri eu rhwymedigaethau proffesiynol.

Rydym hefyd yn argymell bod Bwrdd Safonau'r Bar yn gwahardd yn benodol unrhyw gyffredinoli sy'n cyfrannu at gynnwys y mythau hyn mewn areithiau bargyfreithwyr. Y rheswm dros hyn yw y gall cyffredinoli ddylanwadu ar resymu rheithwyr ac atgyfnerthu stereoteipiau niweidiol, ac os byddant yn cael eu defnyddio'n fwriadol, dylid ystyried hyn yn torri'r ddyletswydd i beidio â chamarwain y llys.

**Canllawiau i farnwyr**

Gallai canllawiau am fythau a chamsyniadau helpu barnwyr i'w nodi, a sut i ymateb pan fydd bargyfreithwyr yn cyffredinoli yn eu hareithiau agoriadol neu gloi mewn ffyrdd sy'n dibynnu ar fythau a chamsyniadau.

Er bod rhywfaint o hyfforddiant ac adnoddau barnwrol eisoes ar gael i farnwyr, fel Compendiwm Llys y Goron, rydym yn dod i'r casgliad y byddai'n werthfawr darparu rhagor o arweiniad yn benodol mewn perthynas â'r canlynol:

1) nodi pryd y gallai cwestiynau fod yn amherthnasol oherwydd eu bod yn dibynnu ar fythau neu gamsyniadau;

2) ymateb i gyffredinoli ar sail mythau neu gamsyniadau mewn areithiau eiriolwyr.

Byddai canllawiau o'r fath yn helpu i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn ffordd fwy teg a chyson. Byddai'n rhoi adnoddau ymarferol i farnwyr asesu a yw cwestiynau neu areithiau'n dibynnu ar stereoteipiau niweidiol, yn cefnogi ymyriadau hyderus a phriodol, ac yn annog eiriolwyr i beidio â chyffredinoli. Byddai'r canllawiau hyn yn ategu adnoddau presennol fel Compendiwm Llys y Goron ac yn hyrwyddo tryloywder, effeithlonrwydd ac ymddiriedaeth y cyhoedd yn y ffordd mae'r achosion sensitif hyn yn cael eu trin.

### Argymhelliad

Rydym yn argymell bod y Coleg Barnwrol yn datblygu canllawiau newydd i helpu barnwyr i ganfod ac ymateb i fythau a chamsyniadau mewn erlyniadau troseddau rhywiol.

`

# Llysoedd arbenigol a diwygiadau mwy radical

Mae llawer o ymdrech wedi'i wneud i geisio gwella treialon troseddau rhywiol dros nifer o ddegawdau. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o bryderon nad oes digon o gynnydd wedi'i wneud, a bod y problemau yn y maes hwn yn rhy sylweddol i'w datrys drwy wneud mân addasiadau i broses y treial. Felly, rydym yn ystyried rhai newidiadau i broses treialon troseddau rhywiol a allai gael eu hystyried yn fwy radical.

## Opsiynau eraill ar gyfer diwygio

- creu llysoedd troseddau rhywiol arbenigol;
- tynnu rheithgorau o achosion troseddau rhywiol;
- defnyddio croesholwyr arbenigol i holi achwynwyr;
- sgrinio rheithwyr ar sail derbyn mythau am dreisio a / neu hyfforddi rheithwyr am fythau trais rhywiol;
- mynnu bod dyfarniadau rhesymegol mewn treialon gyda rheithgorau.

## Llysoedd troseddau rhywiol arbenigol

Clywsom bryderon am anghysondeb ac ansicrwydd ym mhroses treialon troseddau rhywiol, a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar achwynwyr. Mae'r pryderon hyn yn cynnwys anghysondeb o ran y mesurau sydd ar gael i helpu i roi tystiolaeth, defnydd amrywiol o gyfarwyddydau barnwrol, ystafelloedd llys sy'n anaddas i ofynion penodol achosion troseddau rhywiol, a defnydd annisgwyl o egwyddorion tystiolaethol. Roeddem hefyd wedi ystyried tystiolaeth fod angen newid diwylliannol ehangach wrth ymchwilio i droseddau rhywiol ac erlyn.

**Enghreifftiau presennol o lysoedd arbenigol**

Mae llysoedd arbenigol eisoes yn bodoli yng Nghymru a Lloegr. Mae enghreifftiau'n cynnwys y llys ieuenctid, llysoedd arbenigol trais yn y cartref, a chanolfannau llys sydd â meysydd arbenigedd penodol.

Yn yr Alban, mae creu Llys Troseddau Rhywiol cenedlaethol yn cael ei ystyried ar hyn o bryd fel rhan o'r Bil Dioddefwyr, Tystion a Diwygio Cyfiawnder (Yr Alban).

Rydym hefyd yn ystyried enghreifftiau o lysoedd arbenigol troseddau rhywiol o Seland Newydd a De Affrica.

**Manteision Llysoedd Arbenigol Troseddau Rhywiol**

Mae gan Lysoedd Arbenigol Troseddau Rhywiol fanteision posibl i bob rhan o broses treialon, gan gynnwys gwella profiadau cyfranogwyr, mwy o hyfforddiant ac arbenigedd mewn ymarfer sy'n ystyriol o drawma, a rhestru a datrys achosion yn effeithiol gan arwain at lai o oedi. Byddai Llysoedd Arbenigol Troseddau Rhywiol hefyd yn helpu i weithredu'r diwygiadau eraill rydym yn eu hargymell mewn ffordd gynhwysfawr a chyson.

Mae rhai o nodweddion penodol Llysoedd Arbenigol Troseddau Rhywiol a fyddai'n cyflawni hyn yn cynnwys hyfforddiant i fod yn ystyriol o drawma i'r holl staff, gan gynnwys staff y llys a swyddogion diogelwch; darparu seilwaith fel mynedfeydd ac ardaloedd aros ar wahân a chynllun addas yn ystafell y llys; a thechnoleg briodol i ddarparu ar gyfer mesurau i helpu i roi tystiolaeth.

**Nodweddion llys arbenigol**

Fe wnaethom ymgynghori ar sawl model posibl o arbenigedd: canolfannau llys cwbl ar wahân, ystafelloedd llys dynodedig o fewn eiddo tirol presennol y llysoedd, a rhestru arbenigol.

## Argymhelliad

Rydym yn argymell model o lysoedd arbenigol ar gyfer gwrando achosion troseddau rhywiol difrifol mewn ystafelloedd llys dynodedig mewn llysoedd presennol

Byddai gan y llys offer technolegol ar gyfer achosion troseddau rhywiol, gan gynnwys offer i sicrhau y bydd y mesurau i helpu i roi tystiolaeth yn effeithiol

Byddai pawb sy'n gweithio yn y llys yn cael hyfforddiant am droseddau rhywiol a thrawma

Gyda llys arbenigol, gellid blaenoriaethu troseddau rhywiol mewn rhestrau, er mwyn ceisio lleihau oedi

Dylai llys arbenigol gylchdroi barnwyr a staff llysoedd yn rheolaidd er mwyn osgoi cyfyngu ar arbenigedd a'u hatal rhag mynd yn groengaled

Bydd yr opsiwn hwn yn golygu bod llysoedd arbenigol ar gael ledled Cymru a Lloegr. Mae hwn yn ddull pragmatig a fydd yn helpu i ddatblygu gwell cyfleusterau a gweithdrefnau i fynd i'r afael â'r heriau penodol a wynebir mewn erlyniadau troseddau rhywiol. Bydd yn caniatáu i farnwyr a staff llysoedd gylchdroi rhwng llysoedd arbenigol a chyffredinol, a fydd yn helpu i atal gorflino neu drawmateiddio, ac yn annog rhannu gwybodaeth ac arbenigedd. Yn olaf, bydd yn lleihau'r risg y bydd rheithwyr yn rhagfarnu yn erbyn diffynnydd os byddant yn cael gwybod eu bod mewn llys arbenigol troseddau rhywiol.

Byddai angen darparu adnoddau priodol i lysoedd arbenigol er mwyn osgoi gwaethygu'r oedi, neu dynnu adnoddau oddi wrth achosion eraill yn y system cyfiawnder troseddol. Os bydd yn rhaid i bob trosedd rhywiol fynd drwy nifer fach o lysoedd neu ystafelloedd llys, gallai hyn arwain at fwy o oedi yn hytrach na'i leihau.

Rydym yn awgrymu y byddai hefyd yn fuddiol i Lysoedd Arbenigol Troseddau Rhywiol gynnwys:

1) systemau cymorth i reoli'r risg o drawma mechnïol i staff y llys a barnwyr, fel ôl-drafodaethau, cymorth cwnsela, a chyfyngu ar hyd y cysylltiad ag achosion sensitif
2) protocolau rhestru arbenigol, gan gynnwys gofyniad bod treialon yn cael dyddiad gwrandawiad penodol, a phrotocol sy'n caniatáu i dreialon gael eu clywed mewn llysoedd nad ydynt yn arbenigo mewn troseddau rhywiol pan nad oes llys arbenigol troseddau rhywiol ar gael o fewn cyfnod rhesymol.

## Treialon heb reithgor mewn achosion troseddau rhywiol

Defnyddir rheithgorau mewn achosion troseddol difrifol yng Nghymru a Lloegr. Mae’r rheithgor yn rhoi'r rheithfarn ac yn penderfynu ar y ffeithiau, ac mae’r barnwr yn penderfynu ar unrhyw faterion cyfreithiol ac yn dedfrydu'r diffynnydd os yw’n euog. Mae cyd-destunau eisoes lle nad yw diffynyddion yn wynebu rheithgorau yng Nghymru a Lloegr. Mae'r rhain yn cynnwys troseddau llai difrifol a roddir ar brawf yn y llys ynadon, troseddau a roddir ar brawf yn y llys ieuenctid, ac achosion lle mae perygl o ymyrryd â rheithgor. Gall treialon gyda rheithgorau helpu i roi treial teg i ddiffynyddion o dan erthygl 6 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, ond nid ydynt yn angenrheidiol.

Rydym yn ystyried a fyddai tynnu rheithgorau o dreialon troseddau rhywiol yn helpu i atal mythau am dreisio rhag dylanwadu ar dreialon, diogelu preifatrwydd achwynwyr yn well a sicrhau bod achwynwyr yn cael eu trin yn ddyngarol. Ni wnaethom edrych ar y system reithgor yn ehangach.

Pwrpas y prosiect hwn yw mynd i'r afael â'r materion rydym wedi'u nodi mewn erlyniadau troseddau rhywiol, gan gynnwys y risg o fythau a chamsyniadau am drais rhywiol yn dylanwadu ar y treial. Nid oes digon o dystiolaeth i awgrymu y bydd cael gwared ar reithgorau yn mynd i'r afael â'r problemau hyn.

Mae polau piniwn yn dangos cefnogaeth gref ymysg y cyhoedd i ddefnyddio rheithgorau i roi troseddau difrifol ar brawf. Dywedodd ymgyngoreion wrthym am fanteision rheithgorau, gan gynnwys cyfranogiad democrataidd yn y system cyfiawnder troseddol, dod ag amrywiaeth o brofiadau bywyd i'r trafodaethau, a phwysigrwydd trafod wrth ddod i ddyfarniad teg a diduedd. Clywsom bryderon hefyd y byddai cael gwared ar reithgorau mewn achosion troseddau rhywiol yn peryglu colli hyder y cyhoedd yn y system cyfiawnder troseddol. Rydym yn dod i'r casgliad bod ffyrdd eraill o fynd i'r afael â'r problemau rydym wedi'u nodi ac y dylid ymchwilio iddynt cyn bwrw ymlaen â diwygiad mor radical.

### Argymhelliad

Rydym yn argymell cadw rheithgorau mewn treialon troseddau rhywiol.

## Defnyddio croesholwyr arbenigol i gymryd tystiolaeth gan achwynwyr

Pan fydd achwynwyr yn rhoi tystiolaeth yn y llys, gofynnir cwestiynau iddynt fel arfer gan yr eiriolwyr dros yr erlyniad a'r amddiffyniad. Rydym yn ystyried a ddylai croesholwr arbenigol ofyn y cwestiynau hynny yn lle eiriolwr. Y prif ddewisiadau a ystyriwyd gennym oedd defnyddio cyfreithiwr annibynnol neu arbenigwr cyfathrebu.

Nid ydym yn argymell defnyddio croesholwyr arbenigol i gymryd tystiolaeth gan achwynwyr. Nid oes digon o dystiolaeth i awgrymu y byddai croesholwyr arbenigol yn bendant o fudd i achwynwyr, nac yn lleihau dibyniaeth ar fythau a chamsyniadau am drais rhywiol. Gallai croesholwyr arbenigol hefyd ymyrryd yn annheg â gallu'r amddiffyniad i ofyn cwestiynau i'r achwynydd am yr achos, a gallent beryglu treial teg pe na bai'r croesholwr yn archwilio cyfrif yr achwynydd yn briodol. Gallai hefyd ddrysu'r rheithgor, neu greu argraff negyddol o'r diffynnydd neu ei gyfreithiwr. Mae amddiffyniadau eraill, fel mesurau i helpu i roi tystiolaeth a hyfforddiant i gyfreithwyr, y gellir eu defnyddio a'u gwella.

## Sgrinio rheithwyr ar sail derbyn mythau am dreisio a / neu hyfforddi rheithwyr am fythau am dreisio

Yn y papur ymgynghori, gofynnwyd am sgrinio rheithwyr i weld a ydynt yn derbyn mythau am dreisio. Mae hyn yn golygu gofyn cwestiynau i reithwyr er mwyn canfod ac eithrio'r rheini sydd â lefel uchel o gamsyniadau neu gredoau ffug am drais rhywiol.

Nid ydym yn argymell sgrinio rheithwyr fel hyn. Prin yw'r dystiolaeth y bydd hyn yn effeithiol, yn enwedig gan fod y camsyniadau hyn yn aml yn gynnil ac yn yr isymwybod. Gallai ychwanegu cymhlethdod, oedi a chostau, a gallai gyfyngu ar y gronfa o reithwyr sydd ar gael. Gellir ystyried bod sgrinio rheithwyr hefyd yn dylanwadu ar gyfansoddiad y rheithgor neu'n arwain at y rheithgor yn cael rhagfarn am y diffynnydd.

## Mynnu bod dyfarniadau rhesymegol mewn treialon gyda rheithgorau

Yng Nghymru a Lloegr, mae barnwyr yn rhoi rhesymau dros eu penderfyniadau. Nid yw rheithgorau'n rhoi rhesymau dros reithfarnau; mewn gwirionedd, mae'r hyn sy'n digwydd yn ystafell drafod y rheithgor yn gyfrinachol. Fe wnaethom ystyried a ddylai fod yn ofynnol i reithgorau roi rhagor o wybodaeth am y rhesymau sy'n sail i'w rheithfarnau.

Nid yw'n glir a fyddai hyn yn effeithiol o ran canfod a mynd i'r afael â rhagfarn ymysg rheithwyr. Gan fod rhagfarn yn aml yn yr isymwybod, efallai na fydd yn amlwg o'r rhesymau. Gellid dadlau y gallai rhoi rhesymau manwl fod yn gymhleth i reithgorau ac y byddai'n achosi oedi a dryswch. Fodd bynnag, pe bai'r rhesymau'n llai manwl, fel ffurflen ticio blychau, ni fyddai hyn yn debygol o ddarparu unrhyw wybodaeth ystyrlon ynghylch a oedd y rheithgor yn rhagfarnllyd.

Er y gallai gorfod rhoi rhesymau helpu rheithwyr i strwythuro eu trafodaethau ac ystyried eu dyfarniad, mae ffyrdd eraill o gyflawni hyn sydd eisoes yn cael eu defnyddio. Un enghraifft yw'r defnydd o lwybrau dyfarnu ysgrifenedig, sef dogfennau ysgrifenedig a roddir i reithgorau yn nodi'r cwestiynau y mae angen iddynt eu hateb wrth benderfynu ar eu rheithfarn. Am y rhesymau hyn, nid ydym yn credu bod dyfarniadau rhesymegol gan reithgor yn angenrheidiol nac yn effeithiol. Felly, nid ydym yn argymell ei bod yn ofynnol i reithgorau roi rhesymau.

`

# Gwrandawiadau cyn treial

Drwy gydol y materion rydym yn eu hystyried yn y prosiect hwn, mae gwrandawiadau sy'n cael eu cynnal cyn treialon wedi cael eu nodi fel ffynhonnell bosibl o oedi a mwy o ddefnydd o adnoddau, yn ogystal â chyfle i symleiddio'r broses dreialu gan arwain at arbedion effeithlonrwydd yn gyffredinol.

Rydym yn gwneud argymhellion ar gyfer cyfyngu ar gyflwyno mathau penodol o dystiolaeth mewn treialon troseddau rhywiol: dylid ystyried ceisiadau i gyflwyno tystiolaeth o'r fath mewn gwrandawiad cyn treial gan fod hyn yn helpu i leihau'r oedi posibl i'r treial ei hun. Rydym hefyd yn argymell diwygio'r fframwaith er mwyn cael mesurau i helpu'r achwynydd i roi tystiolaeth. Bydd nodi'r angen am fesurau yn gynnar, a hysbysu'r llys yn gynnar, yn helpu i sicrhau bod y fframwaith yn gweithredu'n dda. Gellir defnyddio gwrandawiadau cyn treial i helpu i nodi'r anghenion hyn yn gynnar. Rydym wedi nodi sawl mantais o ddefnyddio math penodol o wrandawiad cyn treial yn fwy at y diben hwn: Gwrandawiad Rheolau Sylfaenol.[28]

**Beth yw Gwrandawiad Rheolau Sylfaenol?**

Cynhelir y math hwn o Wrandawiad ar ôl y gwrandawiad cyntaf yn Llys y Goron mewn unrhyw dreial (y Gwrandawiad Paratoi ar gyfer Treial a Phledio) ac mae fel arfer yn agos at ddechrau'r treial. Maent yn caniatáu i farnwyr wneud cyfarwyddydau i hwyluso triniaeth briodol a chyfranogiad effeithiol gan dyst neu ddiffynnydd.

Disgwylir eisoes y dylid cynnal Gwrandawiad Rheolau Sefydlog ym mhob achos sy'n ymwneud â thyst agored i niwed. Er bod disgwyliad o'r fath, clywsom dystiolaeth sy'n dangos nad yw barnwyr nac eiriolwyr yn gofyn am y math hwn o Wrandawiad yn gyson ym mhob achos priodol.

Credwn fod manteision i ddefnyddio Gwrandawiadau Rheolau Sylfaenol yn fwy cyson, gan gynnwys:

1) annog partïon i ymgysylltu â materion yn gynharach mewn achosion - gallai nodi a datrys materion yn gynharach arwain at arbedion effeithlonrwydd;

2) helpu i gefnogi'r broses o gael gafael ar fesurau i helpu tystion a diffynyddion i roi tystiolaeth, a datrys problemau mewn perthynas â: rheoli cwestiynau, gwella arddull a strwythur croesholi, delio â cheisiadau i dderbyn tystiolaeth, neu benderfynu ar yr angen am dystiolaeth arbenigol neu gyfarwyddydau ychwanegol.

Mae costau'n gysylltiedig â gwrandawiadau rheolau sylfaenol. Gallai dyrannu adnoddau i wrandawiadau rheolau sylfaenol ychwanegol, heb ehangu adnoddau'r llys, gael sgil-effeithiau mewn mannau eraill gan achosi oedi pellach i achosion eraill. Gellid arbed amser ac adnoddau hefyd (yn enwedig lleihau treialon aneffeithlon). Clywsom bryderon penodol hefyd am yr angen i sicrhau y byddai digon o gyllid i gynrychiolwyr cyfreithiol wneud y gwaith ychwanegol hwn.

Byddai rhagdybiaeth o blaid gwrandawiadau rheolau sylfaenol ym mhob achos o droseddau rhywiol lle disgwylir i'r achwynydd roi tystiolaeth yn gwella cysondeb. Fodd bynnag, lle mae anghenion achwynydd unigol yn golygu nad oes angen y cymorth ychwanegol a ystyrir mewn gwrandawiadau rheolau sylfaenol, gellid gwrthbrofi'r rhagdybiaeth. Ar ben hynny, os yw ffeithiau'r achos yn golygu nad oes angen gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch tystiolaeth neu gwestiynau, neu os gellir delio â'r rhain mewn gwrandawiad arall, gellid gwrthbrofi'r rhagdybiaeth hefyd.

### Argymhelliad

Rydym yn argymell y dylid cael rhagdybiaeth bod Gwrandawiad Rheolau Sylfaenol yn cael ei gynnal mewn achosion troseddau rhywiol.

28 Rheolau Trefniadaeth Droseddol, r 3.9.

# Diwygio cyfannol

Mae'n bwysig ystyried sut mae ein hargymhellion yn gweithio gyda'i gilydd. Yn gyntaf, oherwydd bod angen iddynt i gyd weithredu'n effeithiol o fewn yr un broses dreialu. Yn ail, oherwydd bod llawer ohonynt yn gysylltiedig â'i gilydd ac yn dibynnu ar fesurau eraill i gyflawni eu pwrpas yn llawn a chael yr effaith angenrheidiol.

Un o'r prif fygythiadau i uniondeb proses treialon troseddau rhywiol yw cyflwyno a dibynnu ar fythau a chamsyniadau am drais rhywiol. Felly, mae angen i ni atal mythau a chamsyniadau rhag cael eu cyflwyno'n amhriodol, a lliniaru unrhyw effaith negyddol sy'n deillio o fythau o'r fath os ydynt yn dal i godi. Mae hyn hefyd yn wir am wella profiad yr achwynydd. Dylai proses y treial gefnogi ymgysylltiad yr achwynydd a'i alluogi i roi ei dystiolaeth orau. Dylai'r system atal trallod diangen a thriniaeth annynol, a thorri ei hawl i breifatrwydd heb gyfiawnhad. Fodd bynnag, ni all ddileu pob trallod posibl na phob achos o ymyrryd â'u preifatrwydd. Mewn system wrthwynebol, mae croesholi ar bynciau trallodus, ac archwilio rhywfaint o wybodaeth breifat yn angenrheidiol i gael treial teg mewn achosion troseddau rhywiol. Felly, dylai'r system weithredu i leihau'r effeithiau niweidiol na ellir eu hatal yn llwyr. Yn yr un modd, rhaid diogelu hawliau'r diffynnydd drwy gydol proses y treial. Mae sicrhau treial teg yn cynnwys amddiffyn y rhagdybiaeth fod rhywun yn ddieuog, yr hawl i herio tystiolaeth, a'r gallu i gyflwyno amddiffyniad llawn, egwyddorion sy'n hanfodol i gyfiawnder ac na ddylid eu rhoi yn y fantol. Mae ein hargymhellion yn creu system sy'n cydnabod yr ystyriaethau hyn.



**Yn gyntaf**, rydym yn cyflwyno mwy o amddiffyniadau o dan drothwyon newydd ar gyfer cael gafael ar ddeunyddiau trydydd parti a defnyddio'r dystiolaeth rydym wedi nodi ei bod yn arbennig o broblemus, gan gynnwys tystiolaeth o ymddygiad rhywiol, tystiolaeth o honiad ffug a thystiolaeth o ddigolledu am anafiadau troseddol. Cefnogir y diwygiadau hyn gan fesurau ychwanegol i'w gwneud yn fwy effeithiol gan gynnwys: rhoi hawl i'r achwynydd gael gwrandawiad gyda chyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol annibynnol; ehangu'r hawl i apelio yn gymedrol; cyflwyno rhesymau ysgrifenedig dros benderfyniadau barnwrol ar dderbynioldeb tystiolaeth o ymddygiad rhywiol a thystiolaeth o ddigolledu am anafiadau troseddol; rheoleiddio ymddygiad eiriolwyr yn well; a mwy o eglurder ar ddefnyddio cyfarwyddydau barnwrol.




**Yn ail**, rydym yn sicrhau bod y mecanweithiau yn y system yn seiliedig ar y dystiolaeth ddiweddaraf. Mae hyn yn cynnwys: gwella mynediad at reithwyr i gynnal ymchwil; sicrhau bod hyfforddiant a chyngor cyfreithiol yn adlewyrchu ymchwil i effaith mesurau i helpu i roi tystiolaeth; a chaniatáu defnyddio tystiolaeth arbenigol a fydd yn adlewyrchu'r ddealltwriaeth gyfredol o ymatebion i drais rhywiol.

`



**Yn drydydd**, rydym yn argymell mesurau sy'n gwella ymgysylltiad achwynwyr â phroses y treial a'u cefnogaeth iddi, sy'n cefnogi eu hasiantaeth yn well ac yn gwella eu profiad. Mae hyn yn cynnwys: hawl i gael gwrandawiad gyda chefnogaeth cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol annibynnol ar gyfer ceisiadau sy'n defnyddio eu hawliau preifatrwydd fwyaf; ymestyn yr un hawl i apelio o benderfyniadau derbynioldeb sy'n berthnasol ar hyn o bryd i'r diffynnydd a'r erlyniad; craffu cliriach a mwy cyson ar dderbynioldeb mathau problemus o dystiolaeth; a gwell mynediad at fesurau i helpu achwynwyr i roi tystiolaeth. Dylai'r holl welliannau hyn i'r system roi sicrwydd i achwynwyr y bydd proses y treial yn deg, yn dryloyw ac yn cael ei chynnal gan weithwyr proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi'n briodol.



**Yn bedwerydd**, rydym yn argymell mesurau a fydd yn gwella'r system ehangach y tu hwnt i dreialon unigol. Mae hyn yn cynnwys: canllawiau a hyfforddiant i staff y llys, gweithwyr cyfreithiol proffesiynol a'r farnwriaeth; cyfarwyddydau enghreifftiol ychwanegol; mwy o eglurder ynghylch rolau gan gynnwys Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol; a mesurau a fydd yn cefnogi pob parti i gyflawni ei briod ddyletswyddau i'r llys.

Mae'r pedair agwedd hyn yn gweithio gyda'i gilydd yn gyfannol i wella proses y treial i bawb, a sicrhau bod diwygiadau unigol yn cael eu gwreiddio'n briodol a bod eu heffaith arfaethedig lawn yn cael ei gwireddu.

Yn olaf, wrth lunio ein hargymhellion, rydym yn ystyried yn ofalus yr effaith bosibl ar adnoddau'r llys ac unrhyw oedi cysylltiedig. Rydym yn ymwybodol o'r pwysau sydd ar lysoedd a gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, a'n nod yw dod o hyd i atebion sy'n mynd i'r afael â'r materion craidd ac yn cynnig arbedion effeithlonrwydd a manteision hirdymor. Mae ein dull gweithredu yn ceisio cydbwyso dichonoldeb ag effeithiolrwydd, gan sicrhau bod unrhyw newidiadau arfaethedig yn ymarferol ac yn gynaliadwy.